

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn

Cynnwys

3-5	Cwricwlwm Cenedlaethol CiO: Cyflwyniad
6	Lefelau Cymraeg i Oedolion a nifer yr oriau
7	A - Trosolygon y pedair sgîl iaith
21	B - Trosolygon ffwythiannau
39	C - Trosolygon cystrawennau gramadegol allweddol

CYFLWYNIAD

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yn cyflwyno'r gwaith hwn er mwyn sicrhau bod gan faes Cymraeg i Oedolion gwricwlwm y gellir ei ddefnyddio fel sail i adnoddau newydd ar gyfer y maes. Rhaid cydnabod y gwaith a wnaed gan Owen Saer a fu'n gweithio fel arbenigwr Cymraeg i Oedolion i Lywodraeth Cymru wrth gychwyn y broses hon a gwneud llawer iawn o'r gwaith cynllunio. Cafwyd adborth gan ymarferwyr a rheolwyr maes CiO a chyrrff cenedlaethol perthnasol eraill, gan gynnwys y sector addysg. Ystyrir y bydd y cwricwlwm yn parhau'n ddogfen fyw y bydd modd ei haddasu a'i mireinio yn ôl yr angen. Mae prosiect cynhwysfawr ar y gweill i gyhoeddi corpws a fydd yn dangos pa Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan bobl ar draws Cymru. Bydd cyhoeddi'r corpws hwn yn sicr o ddylanwadu'n drwm ar gynnwys y cwricwlwm yn y dyfodol. Gellir dysgu mwy am y prosiect hwn trwy ddilyn y linc - <http://sites.cardiff.ac.uk/corcenc/>.

Cefndir a Sail y Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion

Mae'r cwricwlwm hwn yn nodi'r trosolygon ar gyfer y pedair sgil iaith (siarad, gwranddo, darllen, ysgrifennu), ffwythiannau a chystrawennau gramadegol ar draws y lefelau. Mae wedi'i seilio i raddau helaeth ar yr hyn sy'n bodoli eisoes ym maes Cymraeg i Oedolion ond mae hefyd wedi tynnu ar amryw o gwricwla eraill mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), ieithoedd Ewropeaidd a Saesneg yn Iaith Dramor (EFL), yn ogystal â Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer ieithoedd (CEFR: Common European Framework of Reference for languages). Mae'n diffinio yn fanwl y sgiliau, yr wybodaeth gystrawennol a'r defnydd ffwythiannol o iaith y bydd eu hangen ar ddysgwyr Cymraeg i Oedolion er mwyn arddangos eu bod yn cyrraedd safonau cenedlaethol.

Pa newidiadau fydd i hyd cyrsiau Cymraeg i Oedolion?

Mae'n anodd iawn bod yn hollol wyddonol am nodi faint o oriau i'w pennu ar gyfer pob lefel a gall amrywio'n fawr o unigolyn i unigolyn. Mae nifer yr oriau a bennir ar gyfer lefelau Mynediad (A1), Sylfaen (A2) a Chanolradd (B1) yn ddigyfnewid, sef 120 o oriau. Er mwyn cwblhau Uwch (B2), bennir bod angen 360 o oriau. Ni nodir oriau penodol ar gyfer lefel Hyfedredd gan mai llunio adnoddau ar gyfer lefelau A1-B2 yw'r flaenoriaeth gyntaf i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd cysoni â lefelau CEFR yn hwyluso cydweithio rhwng CiO a meysydd dysgu ieithoedd eraill yng Nghymru, ym Mhrydain a thramor, ac yn golygu y bydd modd cyfeirio yn haws at adnoddau a ddefnyddir yn y meysydd hynny gan eu haddasu lle bo'n fuddiol.

Defnyddio'r Cwricwlwm Cenedlaethol CiO i gynllunio dysgu ac addysgu

Mae angen gosod pob rhaglen ddysgu brif-ffrwd CiO o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol hwn. Gall y Cwricwlwm helpu ymarferwyr ledled Cymru i:

- ▲ asesu sgiliau dysgwyr o ran siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu gan gynnwys asesiadau cychwynnol; (mae'r lefelau'n cyd-fynd â'r lefelau a nodir yn yr erfyn diagnostig);
- ▲ dewis a disgrifio nodau cyffredinol ar gyfer rhaglenni dysgu neu gyrsiau;
- ▲ dewis a threfnu amcanion dysgu, sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer meysydd llafur, cynlluniau gwaith a chynlluniau dysgu unigol;
- ▲ asesu ac adrodd ar gynnydd dysgwyr;
- ▲ cofnodi cyrhaeddiad dysgwyr.

Mae'r holl nodau yn nhablau'r trosolygon wedi'u cyfeirnoddi er mwyn gwneud gwirio a chroesgyfeirio'n haws.

Allwedd:

M - Mynediad;

S - Sylfaen;

C - Canolradd;

U - Uwch

A - Trosolygon sgiliau;

B - Trosolygon ffwythiannau;

C - Trosolygon cystrawennau

Integreiddio'r Cwricwlwm

Trefnir Cwricwlwm Cenedlaethol CiO fesul lefel ar draws y pedair sgil: siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, wrth lunio adnoddau bydd y sgiliau hyn yn aml yn cael eu cyfuno.

Siarad a gwranddo

Defnyddir y ddwy sgil siarad a gwranddo gyda'i gilydd bron yn ddieithriad wrth i siaradwyr rhugl gyfathrebu. Serch hynny, peth cyffredin iawn yw bod dysgwyr yn gallu deall mwy nag y gallant ei ddweud. At ddiben cynllunio dysgu ac addysgu iaith, mae Cwricwlwm Cenedlaethol CiO yn gwahanu siarad a gwranddo. Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd dysgu, fodd bynnag, bydd angen i ymarferwyr gyfuno'r ddwy sgil drwy osod gweithgareddau cyfathrebol real sydd yn eu hintegreiddio.

Geirfa

Ni chyfeirir yn benodol at eirfa yn y ddogfen hon gan fod ymchwil a wnaed gan yr Athro Steve Morris (Prifysgol Abertawe) eisoes wedi arwain at gyhoeddi rhestr geirfa graidd ar gyfer lefelau Mynediad a Sylfaen ac y mae rhestr geirfa graidd Canolradd yn yr arfaeth. Bydd llunwyr cyrsiau'n defnyddio'r rhestr hyn law yn llaw â'r sgiliau, y ffwythiannau a'r cystrawennau gramadegol a geir yn y ddogfen hon. Gellir cael hyd i'r eirfa Mynediad yma - http://www.cbac.co.uk/qualifications/qualification-resources.html?level=GeneralNoLevel&subject=WelshforAdultsEntry&language_id=2; a'r eirfa Sylfaen yma - http://www.cbac.co.uk/qualifications/qualification-resources.html?level=GeneralNoLevel&subject=WelshforAdultsFoundation&language_id=2

Gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion

Yn y tymor hir, mae gwreiddo amcanion y cwricwlwm yn ddibynnol ar greu adnoddau a defnyddio dulliau dysgu priodol, ac ar sgiliau addysgu'r tiwtor. Hynny fydd yn sbarduno brwdfrydedd ac yn cryfhau ymrwymiad y dysgwyr. P'un a ydy'r dysgwr yn dysgu er mwyn ennill cymhwyster ai peidio, dylai'r dysgu fod yn weithgaredd pluserus ynddo'i hun.

LEFELAU CYMRAEG I OEDOLION A NIFER YR ORIAU

Mae'r oriau yn y tabl yn cyfeirio at y lleiafswm oriau mewn dosbarth neu ar gwrs cyfunol. Rhaid i'r rhan fwyaf o ddysgwyr ychwanegu at yr oriau hyn ar ffurf dysgu annibynnol a chyfleoedd ymarfer y tu allan i'r dosbarth er mwyn dysgu dod i ddefnyddio'r iaith yn llwyddiannus.

Lefel CEFR	A1	A2	B1	B2	C1
Lefel CiO	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd
Oriau craidd fesul lefel (cyfanswm)	120	120	120	360	
Oriau craidd cynyddol (cyfanswm)	120	240	360	720	

A - TROSOLYGMON Y PEDAIR SGIL IAITH

Mae'r trosolygion hyn yn dangos cynnydd yn y **pedair sgil (siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu)** ar draws y lefelau yn y cwricwlwm. Gellir eu defnyddio ar y cyd â'r trosolygion ffwythiannol a'r cystrawennau gramadegol.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddant yn

- ▲ dysgu defnyddio'r iaith (siarad ac ysgrifennu) mewn nifer gynyddol o gyd-destunau, gan symud o'r cyfarwydd (A1) i amrediad eang o sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd (B2)
- ▲ gallu ymgymryd â thasgau gwranddo a darllen o gymhlethdod cynyddol, gan symud o iaith seml mewn cyd-destunau cyfarwydd (A1) i iaith fwy cymhleth a haniaethol o lawer mewn amrediad eang o arddulliau a chyd-destunau (B2)
- ▲ gallu manteisio ar gronfa gynyddol o ran:
 - geirfa;
 - arddulliau a chyweiriau (ffurfiol ac anffurfiol);
 - gramadeg a chystrawen;
 - nodweddion ynganiadol.

Byddant hefyd yn dod i ddefnyddio'r iaith â mwy o hyder a dyfnder.

Nodiadau ar gyfer defnyddio'r trosolygion

Mae'r trosolygion yn nodi'r hyn y disgwylir i'r dysgwyr fod yn gallu ei gyflawni o ran y pedair sgil siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu er mwyn 'cyrraedd y nod'. Serch hynny, mae ymchwil ar gaffael iaith yn dangos nad yw 'cwblhau'r lefel' o anghenraid yn golygu cywirdeb 100%. Yn ogystal, nid yw'r hyn a nodir ar gyfer lefel benodol yn cyfyngu'r hyn y gellir ei ddysgu na'i addysgu ar y lefel honno. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn dymuno dysgu iaith a nodir ar lefelau uwch, neu y bydd arnynt angen gwneud hynny; bydd hyn yn amrywio yn ôl y dysgwr a'r sefyllfa ddysgu.

A

SIARAD

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Ynganu: acennu a goslef	MA1.1 Defnyddio acennu a goslef digon cywir i fod yn ddealladwy i wrandawyr cyfeillgar.	SA1.1 Defnyddio acennu a goslef digon cywir i fod yn ddealladwy yn gyffredinol.	CA1.1 Defnyddio acennu a goslef yn ddigon cywir i fod yn ddealladwy ac i eglhurhau ystyr.	UA1.1 Defnyddio acennu a goslef yn gywir gan allu eglurhau ystyr yn hyderus.	Defnyddio acennu a goslef yn gywir gan allu eglurhau ystyr ac isystyron manwl.
Ynganu: seiniau'r Gymraeg	MA2.1 Cynhyrchu seiniau'r Gymraeg yn ddigon cywir i fod yn ddealladwy i wrandawyr cyfeillgar.	SA2.1 Cynhyrchu seiniau'r Gymraeg yn ddigon cywir i fod yn ddealladwy yn gyffredinol.	CA2.1 Cynhyrchu seiniau'r Gymraeg yn ddigon cywir i gyfathrebu'n eghur.	UA2.1 Cynhyrchu seiniau'r Gymraeg yn gywir gan efelychu rhai o briodweddau seinegol siaradwyr rhugl wrth gysylltu geiriau ac ati.	Cynhyrchu seiniau'r Gymraeg yn gywir gan efelychu prif briodweddau seinegol siaradwyr rhugl wrth gysylltu geiriau ac ati.
Ffurfioldeb a chywair	MA3.1 Cyfranogi o sgwrsio cyffredinol ac o fewn cyd-destun mwy ffurfiol, e.e. Clive Morgan dw i. Dw i'n gweithio yn y swyddfa.	SA3.1 Cyfranogi o sgwrsio cyffredinol ac o fewn cyd-destun mwy ffurfiol, e.e. Clare Roberts yw fy enw i, a dw i'n gweithio yn y llyfrgell.	CA3.1 Cyfranogi o sgwrsio cyffredinol ac o fewn cyd-destun mwy ffurfiol, e.e. Bydd y pennaeth yn cysylltu â chi yfory.	UA3.1 Dechrau dod i ddefnyddio iaith lai ffurfiol a ffurfiol, e.e. Hoffwn i eich gwahodd chi i'r digwyddiad arbennig hwn.	Defnyddio iaith sy'n briodol i'r cywair a'r ffurfioldeb, e.e. A ga i dynnu eich sylw chi at y drydedd eitem ar yr agenda? Braf oedd llwyddo i ddenu nifer fawr o ymgeiswyr i'r gystadleuaeth hon eto eleni.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Ystod	<p>MA4.1 Gallu defnyddio nifer gyfyngedig o batrymau – presennol, perffaith, gorffennol, amherffaith, ymadroddion syml iawn dan reolaeth yr arddodiad ‘i’.</p> <p>MA4.2 Defnyddio geirfa addas ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd rhagweladwy megis prynu rhywbeth mewn siop. (Ymhelaethir ar y patrymau yn y Cystrawennau Gramadegol Allweddol).</p>	<p>SA4.1 Gallu defnyddio pob amser yn y ferf, patrymau dan reolaeth yr arddodiad ‘i’ ac arddodiaid eraill, cymharu ansoddeiriau.</p> <p>SA4.2 Meddu ar eirfa er mwyn trafod themâu sy’n codi’n gyson ac yn ymwneud â bywyd pob dydd megis teulu, diddordebau a gwaith. (Ymhelaethir ar y patrymau yn y Cystrawennau Gramadegol Allweddol).</p>	<p>CA4.1 Gallu creu brawddegau mwy cymhleth yn defnyddio cymalau.</p> <p>CA4.2 Meddu ar eirfa ddigonol i ymdopi â sefyllfaoedd pob dydd heb eu rhagweld, e.e. mân siarad wrth gwrdd â pherson diarth. (Ymhelaethir ar y patrymau yn y Cystrawennau Gramadegol Allweddol).</p>	<p>UA4.1 Gallu creu rhai brawddegau cymhleth.</p> <p>UA4.2 Meddu ar eirfa ddigonol i allu trafod unrhyw faterion sy’n codi, nad ydynt yn arbenigol iawn ac ymdopi â sefyllfaoedd mwy ffurfiol o fod wedi cael cyfle i baratoi, e.e. cyfweiliad ar gyfer swydd. (Ymhelaethir ar y patrymau yn y Cystrawennau Gramadegol Allweddol).</p>	<p>Gallu creu brawddegau cymhleth a meddu ar eirfa ddigonol i ymdrin ag unrhyw bwnc, gan gynnwys pynciau arbenigol megis trafodaethau polisi. (Ymhelaethir ar y patrymau yn y Cystrawennau Gramadegol Allweddol).</p>
Cywirdeb	<p>MA5.1 Meddu ar reolaeth gyfyngedig dros nifer gyfyngedig o gystrawennau gramadegol syml, ynghyd â rhai ymadroddion a phatrymau a ddysgwyd ar gof.</p>	<p>SA5.1 Gallu defnyddio prif batrymau’r Gymraeg yn eithaf cywir.</p>	<p>CA5.1 Gallu defnyddio yn weddol gywir gasgliad o gystrawennau cyffredin sy’n gysylltiedig â sefyllfaoedd gweddol ragweladwy.</p>	<p>UA5.1 Meddu ar feistrolaeth ramadegol weddol dda.</p>	<p>Gallu cynnal gradd uchel o gywirdeb gramadegol; gwneud gwallau yn anfynych, heb iddynt fod yn amlwg, ac yn hunangywiro gan amlaf.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Llif	MA6.1 Yn gallu cynhyrchu iaith fesul brawddeg unigol yn bennaf, a hynny o fewn sefyllfaoedd rhagweladwy.	SA6.1 Yn gallu cysylltu brawddegau i greu cyflwyniadau byrion neu ymestyn ar ymatebion un frawddeg yn unig, a hynny o fewn sefyllfaoedd rhagweladwy.	CA6.1 Yn gallu siarad yn rhydd am destunau pob dydd.	UA6.1 Yn gallu siarad yn estynedig am destunau pob dydd a materion cyfoes nad ydynt yn arbenigol.	Yn gallu siarad yn estynedig am bob math o destunau, gan gynnwys testunau arbenigol.
Rhyngweithio cymdeithasol	MA7.1 Cyfranogi o ryngweithio cymdeithasol, e.e. Helo. Sut wyt ti?	SA7.1 Cyfranogi o ryngweithio cymdeithasol, e.e. Braf eich gweld chi. Gawsoch chi wyliau da?	CA7.1 Cyfranogi o ryngweithio cymdeithasol, e.e. Popeth yn iawn, 'te. Gwelwn ni chi'r wythnos nesa.	UA7.1 Cyfranogi o ryngweithio cymdeithasol, e.e. Ti am fynd mas am bizza gyda'r lleill heno?	Cyfranogi o ryngweithio cymdeithasol, e.e. Dan ni ddim wedi'ch gweld chi ers tro byd. Sut ma' petha efo chi?
Rhyngweithio mwy ffurfiol	MA8.1 Cyfranogi o ryngweithio mwy ffurfiol, e.e. Steve Edwards yw fy enw i. Miss Clark yw fy mhennaeth i.	SA8.1 Cyfranogi o ryngweithio mwy ffurfiol, e.e. Ffion Rogers dw i, a hoffwn i siarad â Mr Saunders, os gwelwch chi'n dda.	CA8.1 Cyfranogi o ryngweithio mwy ffurfiol, e.e. Bydd y pennaeth yn cysylltu â phawb yn fuan.	UA8.1 Cyfranogi o ryngweithio mwy ffurfiol, e.e. Hoffwn i esgusodi fy hun yr wythnos nesaf.	Cyfranogi o ryngweithio mwy ffurfiol, e.e. Rwy'n cysylltu am fanylion y swydd yn eich hysbyseb chi oedd yn rhifyn diwethaf Golwg.

GWRANDO

Gwrando ac ymateb

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Bras ystyr (gist)	<p>MA9.1 Adnabod cyd-destun a rhagweld ystyr gyffredinol mewn cyfnewidiadau llafar dydd i ddydd, gan adnabod testun y sgwrs</p> <p>MA9.2 Deall bras ystyr ac ymateb, e.e. mewn sgysiau byrion, trafodaethau syml, esboniadau a darnau naratif.</p>	<p>SA9.1 Adnabod cyd-destun a rhagweld ystyr gyffredinol drwy adnabod testun y sgwrs a rhagweld patrwm y rhyngweithio</p> <p>SA9.2 Deall bras ystyr ac ymateb lle bo'n briodol, e.e. mewn sgysiau, trafodaethau a thestunau byrion ar deledu a radio.</p>	<p>CA9.1 Adnabod cyd-destun a rhagweld ystyr mewn amrediad o destunau gwrando a chyfnewidiadau llafar, dros amrediad o arddulliau llafar</p> <p>CA9.2 Deall bras ystyr ac ymateb lle bo'n briodol, e.e. mewn sgysiau, trafodaethau, ar y teleffon, ar deledu, radio a fideo.</p>	<p>UA9.1 Deall bras ystyr mewn trafodaethau ar amrediad o bynciau.</p>	<p>Defnyddio dealltwriaeth o fras ystyr testunau llafar cymhleth er mwyn ceisio dyfalu ystyr geiriau dieithr.</p>
Manylion	<p>MA10.1 Deall manylion ac ymateb, e.e. mewn sgysiau byrion, esboniadau a darnau naratif.</p>	<p>SA10.1 Deall manylion ac ymateb, e.e. mewn sgysiau, esboniadau a darnau naratif.</p>	<p>CA10.1 Deall manylion ac ymateb lle bo'n briodol, e.e. mewn sgysiau, ar y teleffon, mewn esboniadau a darnau naratif mewn gwahanol gyd-destunau.</p>	<p>UA10.1 Deall manylion ac ymateb lle bo'n briodol, gan addasu i'r siaradwr, y cyfrwng a'r cyd-destun, e.e. ar deledu neu radio, mewn sgysiau, ar y teleffon, mewn esboniadau a darnau naratif mewn amrediad o gyd-destunau.</p>	<p>Deall manylion mewn amrediad eang o gyd-destunau ar wahanol destunau, ac ymateb lle bo'n briodol, gan addasu i'r siaradwr, y cyfrwng a'r cyd-destun.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Gwybodaeth	MA11.1 Deall gwybodaeth allweddol.	SA11.1 Deall y prif bwyntiau a gwybodaeth syml at ddiben penodol, gan ymateb lle bo'n briodol, e.e. mewn cyflwyniadau neu esboniadau byrion.	CA11.1 Deall gwybodaeth newydd a pherthnasol gan ymateb lle bo'n briodol, e.e. ar deledu, radio neu fideo, mewn sgysiau neu ar y teleffon.	UA11.1 Deall gwybodaeth berthnasol o destunau amrywiol eu hyd a'u harddull gan ymateb lle bo'n briodol, e.e. ar deledu, radio neu fideo, mewn sgysiau neu ar y teleffon.	Deall gwybodaeth o destunau estynedig ar draws amrediad o arddulliau gan ymateb lle bo'n briodol, e.e. ar deledu, radio neu fideo, mewn sgysiau neu ar y teleffon.
Dealltwriaeth ramadegol	MA12.1 Adnabod rhai priodweddau manwl gramadegol.	SA12.1 Adnabod rhai priodweddau manwl gramadegol.	CA12.1 Adnabod priodweddau manwl gramadegol mewn gwahanol gyd-destunau.	UA12.1 Adnabod priodweddau manwl gramadegol mewn amrediad o gyd-destunau.	Adnabod priodweddau manwl gramadegol mewn amrediad o gyd-destunau ar wahanol bynciau.
Dealltwriaeth seinegol (ynganiadol)	MA13.1 Adnabod rhai priodweddau manwl seinegol.	SA13.1 Adnabod rhai priodweddau manwl seinegol.	CA13.1 Adnabod priodweddau manwl seinegol mewn gwahanol gyd-destunau.	UA13.1 Adnabod priodweddau manwl seinegol mewn amrediad o gyd-destunau.	Adnabod priodweddau manwl seinegol mewn amrediad o gyd-destunau ar wahanol bynciau.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	MA14.1 Meddu ar ymwybyddiaeth fras fod gwahanol dafodieithoedd i'r Gymraeg.	SA14.1 Meddu ar ymwybyddiaeth fod gwahanol dafodieithoedd i'r Gymraeg.	CA14.1 Deall rhai o briodweddau mwyaf amlwg y prif dafodieithoedd, e.e. fe / fo, yw / ydy, llaeth / llefrith.	UA14.1 Deall yn fras o le bydd siaradwyr yn dod yn seiliedig ar wybodaeth weddol drwyadl o briodweddau gwahanol dafodieithoedd.	Meddu ar wybodaeth weddol fanwl o briodweddau seinegol a geirfaol gwahanol dafodieithoedd. Deall siaradwyr rhugl o bob rhan o Gymru heb i dafodiaith achosi anhawster amlwg.
Cwestiynau	MA15.1 Deall ceisiadau syml am wybodaeth bersonol neu i weithredu.	SA15.1 Deall ceisiadau syml am wybodaeth, am ganiatâd, neu i weithredu.	CA15.1 Deall amrediad o geisiadau, am wybodaeth am destunau cyfarwydd neu i weithredu.	UA15.1 Deall cwestiynau ar amrediad o destunau.	Deall cwestiynau manwl neu estynedig ar amrediad o destunau.

DARLEN

Canolbwyntio ar lefel testun cyfan: darllen a deall

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Darllen gyda dealltwriaeth	MA16.1 Deall darn naratif byr ar bwnc neu brofiad cyfarwydd.	SA16.1 Defnyddio amrediad o strategaethau a gwybodaeth am destunau i ddeall y prif ddigwyddiadau mewn testunau cronolegol a chyfarwyddol.	CA16.1 Deall ac adnabod y ffordd yr adeiledir ystyr mewn testunau esboniadol a disgrifiadol cronolegol a pharhaus mwy nag un paragraff eu hyd mewn amrediad o arddulliau.	UA16.1 Deall ac adnabod y ffordd yr adeiledir ystyr mewn amrediad o destunau aml-baragraff mewn amrediad o arddulliau.	Deall ac adnabod y gwahanol ffyrdd yr adeiledir ystyr mewn amrediad o destunau aml-baragraff mewn amrediad o arddulliau, gan gynnwys ystyr nas mynegir yn ddiamwys.
Prif bwyntiau a gwybodaeth	MA17.1 Deall gwybodaeth wrth ddarllen testun am bwnc neu brofiad cyfarwydd.	SA17.1 Deall gwybodaeth wrth ddarllen testun, gan ddeall y cysylltiad rhwng ysgrifen a darluniau, mapiau syml, diagramau neu gapsiynau.	CA17.1 Deall y prif bwyntiau a syniadau, gan gysylltu delweddau ag ysgrifen er mwyn caffael gwybodaeth.	UA17.1 Deall y ffordd y cyflwynir ac y cysylltir prif bwyntiau a manylion penodol, a'r ffordd y defnyddir delweddau i gasglu ystyr nas cyflêir yn ddiamwys yn y testun.	Deall y prif bwyntiau a manylion penodol wrth iddynt godi mewn amrediad o wahanol fathau o destun amrywiol eu hyd a'u manylder.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Darllen yn feirniadol		SA18.1 Mynegi barn ar sail testun syml.	CA18.1 Dechrau dod i gasgliad wrth ddarllen.	UA18.1 Deall fod gwahanol ffyrdd posibl o ymateb i destun, e.e. darllen testun perswadiol yn feirniadol, neu drafod llyfr.	Darllen yn feirniadol er mwyn gwerthuso gwybodaeth, a chymharu gwybodaeth, syniadau a barnau o wahanol ffynonellau.
Canfod gwybodaeth	MA19.1 Defnyddio geiriadur papur/ ar-lein. MA19.2 Adnabod ffurfiau treigledig.	SA19.1 Defnyddio amrediad o ffynonellau gwybodaeth cyffredin y gellir cael gwybodaeth ddydd i ddydd ynddynt.	CA19.1 Defnyddio adnoddau trefniadol mewn amrediad o ffynonellau cyfair, megis cynnwys, mynegai neu ddewislen, gan ddeall eu hamcanion.	UA19.1 Defnyddio adnoddau trefniadol megis cynnwys, mynegai, dewislen, is-benawdau neu baragraffau mewn amrediad o ffynonellau cyfair i gyrchu gwybodaeth.	Defnyddio adnoddau trefniadol a chystrawennol a systemau i gyrchu testunau a gwybodaeth, e.e. systemau llyfrgell, gwefannau, systemau ffeilio swyddfa.

DARLEN

Canolbwyntio ar lefel brawddegau

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Dealltwriaeth ramadegol	MA20.1 Deall cystrawennau brawddegol syml.	SA20.1 Deall prif batrymau'r Gymraeg.	CA20.1 Deall ystyr a chadarnhau dealltwriaeth, defnyddio gwybodaeth ramadegol, gan gynnwys priodweddau ieithyddol testunau cyfarwyddol.	UA20.1 Defnyddio gwybodaeth ramadegol ymhlyg ac eglur, ochr yn ochr â gwybodaeth a phrofiadau'r dysgwr i ragweld ystyr, i ddyfalu ystyrion posibl ac i ddarllen a gwirio synnwyr y testun.	Defnyddio gwybodaeth ramadegol ymhlyg ac eglur, ochr yn ochr â gwybodaeth a phrofiadau'r dysgwr o ran cyd-destun, i helpu gyda dilyn yr ystyr a deall amcan gwahanol fathau o destun.

DARLEN

Canolbwyntio ar lefel geiriau: geirfa, ac adnabod geiriau

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Adnabod geiriau	MA21.1 Deall nifer gyfyngedig o eiriau, arwyddion a symbolau.	SA21.1 Deall nifer o eiriau cyfarwydd a geiriau sy'n dilyn patrwm sillafu cyffredin.	CA21.1 Deall geirfa allweddol, berthnasol.	UA21.1 Deall geirfa sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o destun, gan ddefnyddio strategaethau priodol i ganfod yr ystyr.	Deall geirfa sy'n gysylltiedig â thestunau amrywiol eu hamcan, lefel hygyrchedd, ffurfioldeb a chymhlethdod, gan gynnwys geirfa dechnegol.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn ffurflenni	MA22.1 Deall geiriau ar ffurflen syml iawn, e.e. enw, cyfeiriad, rhif ffôn.	SA22.1 Deall geiriau ar ffurflen sy'n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol, gan ddeall cyfarwyddiadau ymhlyg ac eglur, e.e. dyddiad geni.	CA22.1 Deall geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn gyson mewn ffurflenni, gan ddeall confensiynau llenwi ffurflenni.		
Strategaethau ar gyfer adnabod a datgodio geiriau	MA23.1 Defnyddio'r iaith gyntaf er mwyn dyfalu ystyr.	SA23.1 Dyfalu ystyr gair o'r cyd-destun a morffoleg/ gwybodaeth o eirfa.	CA23.1 Defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen a deall amrediad cynyddol o eiriau anghyfarwydd.	UA23.1 Darllen a deall amrediad cynyddol o eirfa, gan ddefnyddio gwybodaeth am eiriau (eu cystrawen, geiriau perthynol, bonau geiriau ac ati).	Darllen a deall geirfa arbenigol a thechnegol, gan ddefnyddio amrediad eang o strategaethau.
Adnabod llythrennau a threfn yr wyddor	MA24.1 Adnabod llythrennau'r wyddor Gymraeg MA25.2 Defnyddio trefn yr wyddor ar lefel sylfaenol i osod geiriau yn eu trefn.	SA24.1 Adnabod ffurfiau cysefin geiriau sydd wedi treiglo yn hyderus.			

YSGRIFENNU

Canolbwyntio ar lefel testun cyfan: creu darn ysgrifenedig

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Arddull, cyfansoddi a chynllunio	MA25.1 Ysgrifennu testun syml iawn i gyfleu syniadau neu wybodaeth sylfaenol, e.e. wrth lunio rhestr, llenwi ffurflen seml, ysgrifennu cerdyn post neu neges e-bost fer.	SA25.1 Ysgrifennu testun syml, gan ddewis fformat priodol i'r arddull a'r amcan, e.e. mewn nodyn neu neges e-bost neu adroddiad syml iawn.	CA25.1 Ysgrifennu drafft gan ddefnyddio strategaethau cynllunio fel y bo'n, briodol, e.e. mewn llythyr mwy ffurfiol neu adroddiad. CA25.2 Gwneud nodiadau fel rhan o'r broses gynllunio, gan nodi geiriau allweddol a defnyddio rhai priodweddau nodiadau.	UA25.1 Ysgrifennu drafft gan ddefnyddio amrediad o strategaethau cynllunio arddull-benodol fel y bo'n briodol UA26.2 Gwneud nodiadau fel rhan o'r broses gynllunio lle bo'n briodol, gan nodi geiriau allweddol a defnyddio rhai priodweddau nodiadau a dewis o blith gwahanol fformatau.	Ysgrifennu drafft gan ddefnyddio amrediad eang o strategaethau cynllunio arddull-benodol fel y bo'n briodol. Gwneud nodiadau fel rhan o'r broses gynllunio lle bo'n briodol, gan ddefnyddio priodweddau allweddol nodiadau a dewis fformat priodol.
Arddull a strwythur testun	MA26.1 Defnyddio confensiynau rhai mathau o destunau syml iawn, e.e. atebion byr ar ffurflen, cerdyn post, e-bost, neges destun, rhyngweithiau cymdeithasol.	SA26.1 Deall fod testunau o'r un arddull yn rhannu priodweddau cyffredin o ran strwythur testunol, e.e. diwyg a defnydd ar benawdau.	CA26.1 Lle y bo'n briodol, strwythuro prif bwyntiau'r testun yn baragraffau a dangos trefn amserol drwy ddefnyddio marcyddion disgwrs a chysyllteiriau.	UA26.1 Defnyddio fformat a strwythur priodol ar gyfer gwahanol ddibenion ac arddulliau, gan strwythuro trefn testun yn gydlynus yn ôl yr arddull.	Dewis fformat a strwythur priodol i drefnu'r testun yn ôl gwahanol ddibenion ac arddulliau, gan ddewis math priodol o strwythur paragraffol a phriodweddau ieithyddol i gynorthwyo dilyniannu a chydlyniant, pan fo'n briodol i'r arddull.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Arddull ac iaith briodol	MA27.1 Defnyddio confensiynau sylfaenol rhai mathau o destunau syml iawn, e.e. atebion byr ar ffurflen.	SA27.1 Defnyddio priodweddau cyffredin ar gyfer mathau o ysgrifennu e.e. ffyrdd o ddechrau llythyr neu e-bost.	CA27.1 Defnyddio iaith sy'n briodol i'r arddull, yr amcan a'r gynulleidfa.	UA27.1 Defnyddio iaith sy'n briodol i'r arddull, yr amcan a'r gynulleidfa gan ddangos ymwybyddiaeth o'r prif wahaniaethau rhwng Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.	Defnyddio cywair ac arddull ieithyddol sy'n briodol i'r arddull, yr amcan a'r gynulleidfa
Gwirio	MA28.1 Gwirio a hunan-gywiro eu gwaith eu hunain.	SA28.1 Gwirio a hunan-gywiro eu gwaith eu hunain.	CA28.1 Gwirio a hunan-gywiro eu gwaith eu hunain.	UA28.1 Gwirio a hunan-gywiro eu gwaith eu hunain.	Gwirio a hunan-gywiro eu gwaith eu hunain.

YSGRIFENNU

Canolbwyntio ar lefel brawddegau: gramadeg a sillafu

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Gramadeg	MA29.1 Ysgrifennu brawddeg seml, gan ddefnyddio trefn eiriau a ffurf ferfol sylfaenol.	SA29.1 Ysgrifennu brawddegau syml a chyfansawdd, gan ddefnyddio ansoddeiriau a chysyllteiriau cyffredin, e.e. 'achos' ac 'ond' i gysylltu cymalau.	CA29.1 Ysgrifennu gan ddefnyddio gramadeg frawddegol sylfaenol yn gywir, gan gynnwys brawddegau cymhleth.	UA29.1 Ysgrifennu gan ddefnyddio gramadeg frawddegol yn gywir i gyflawni amcan, gan gynnwys brawddegau cymhleth ac adeiladu brawddegau ffurfiol yn wahanol i rai mewn testunau llai ffurfiol.	Ysgrifennu amrediad o gystrawen frawddegol sy'n briodol i'w amcanion, yn gyson ac yn gywir, gan ddefnyddio rhagenwau ac amnewid geirfaol i leihau ailadrodd ac i wella eglurdeb.
Sillafu	MA30.1 Sillafu yn gywir eiriau allweddol personol a geiriau cyfarwydd. MA30.2 Defnyddio rhai strategaethau i gynorthwyo sillafu, gan dynnu ar wybodaeth o batrymau sillafu e.e. clystyrau cytseiniaid a ffonemau llafarol, e.e. edrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirio edrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirio.	SA30.2 Defnyddio amrediad o strategaethau i gynorthwyo sillafu, gan dynnu ar wybodaeth o batrymau sillafu e.e. clystyrau cytseiniaid a ffonemau llafarol, e.e. edrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirio edrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirio.	CA30.2 Defnyddio strategaethau i gynorthwyo sillafu, e.e. edrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirio edrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirioedrych-dweud- cuddio-ysgrifennu- gwirio.	UA30.2 Defnyddio strategaethau i gynorthwyo sillafu yn gywir.	Defnyddio strategaethau yn sytemataidd a chyson i gynorthwyo sillafu yn gywir.

B - TROSOLYGON FFWYTHIANNAU

Mae'r trosolygon hyn yn dangos cynnydd yn y ffwythiannau mae angen eu defnyddio wrth gyfathrebu ar draws y lefelau yn y cwricwlwm. Diau y deuir ar draws rhagor o ffwythiannau y bydd angen eu hymgorffori wrth ddatblygu adnoddau. Gellir eu defnyddio ar y cyd gyda'r trosolygon sgiliau a chystrawennau.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddant yn

- ▲ dysgu defnyddio'r iaith (siarad ac ysgrifennu) mewn nifer gynyddol o gyd-destunau, gan symud o'r cyfarwydd (Mynediad/A1) i amrediad eang o sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd (Uwch/B2)
- ▲ gallu manteisio ar gronfa gynyddol o ran:
 - geirfa;
 - arddulliau a chyweiriau (ffurfiol ac anffurfiol);
 - gramadeg a chystrawen;
 - nodweddion ynganiadol.

Nodiadau ar gyfer defnyddio'r trosolygon

Mae'r trosolygon hyn yn nodi'r hyn y disgwylir i'r dysgwyr fod yn gallu ei gyflawni'n ffwythiannol er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn y Gymru ddwyieithog. Mae ymchwil ar gaffael iaith yn dangos nad yw 'cwblhau'r lefel' o anghenraid yn golygu cywirdeb 100%. Yn ogystal, nid yw'r hyn a nodir ar gyfer lefel benodol yn cyfyngu'r hyn y gellir ei ddysgu na'i addysgu ar y lefel honno. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn dymuno dysgu iaith a nodir ar lefelau uwch ar gyfer rhai o'r ffwythiannau a nodir, neu y bydd arnynt angen gwneud hynny; bydd hyn yn amrywio yn ôl y dysgwr a'r sefyllfa ddysgu.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Cyfarch a chyflwyno	MB1.1 Cyflwyno eich hun a pherson arall yn syml iawn, e.e. Helo. Bore da. Siân dw i. Dyma Dafydd.	SB1.1 Cyflwyno eich hun a pherson arall gan gynnig gwybodaeth atodol, e.e. Siân dw i. Dyma Dafydd - dw i'n gweithio gyda fe.	CB1.1 Cyflwyno eich hun a pherson arall mewn sefyllfaoedd anffurfiol a lled-ffurfiol, e.e. Siân dw i, pennaeth y cwmni. Dyma Dafydd a Mari, fy nghydweithwyr yn y swyddfa.	UB1.1 Cyflwyno eich hun a pherson arall mewn sefyllfaoedd anffurfiol, lled-ffurfiol a ffurfiol, e.e. Siân Williams dw i, Prif Weithredwr Cwmni Tesbury's. Dyma fy nirprwy, Dafydd Roberts.	Cyflwyno eich hun a pherson arall mewn sefyllfaoedd anffurfiol, lled-ffurfiol a ffurfiol, gan gynnwys cyflwyno siaradwyr gwadd, e.e. Croeso cynnes iawn. Fy enw i yw Siân ac mae'n bleser gen i gyflwyno'n siaradwr gwadd ni heddiw, Dafydd Roberts.
Ffarwelio	MB2.1 Ffarwelio'n syml iawn, e.e. Hwyl! Nos da!	SB2.1 Ffarwelio'n syml, e.e. Gwela i ti wythnos nesa. Braf cwrdd â chi.	CB2.1 Ffarwelio mewn sefyllfaoedd anffurfiol a lled-ffurfiol, e.e. Gobeithio dy weld eto cyn bo hir.	UB2.1 Ffarwelio mewn sefyllfaoedd anffurfiol, lled-ffurfiol a ffurfiol, e.e. Mae wedi bod yn bleser cwrdd â chi a gobeithio byddwn ni'n cyfarfod eto rywbryd.	Ffarwelio mewn sefyllfaoedd anffurfiol, lled-ffurfiol a ffurfiol, e.e. Roedd yn fraint cael gweithio â chi a hyderaf y bydd y cyfle'n codi eto yn y dyfodol.
Gwneud cais	MB3.1 Gwneud cais: gofyn am eitem, am weithred, neu am ganiatâd yn syml iawn, e.e. Dw i eisiau coffi os gwelwch yn dda.	SB3.1 Gwneud cais: gofyn am eitem, am weithred, neu am ganiatâd yn syml iawn, e.e. Ga i aros yma os gwelwch yn dda?	CB3.1 Gwneud cais llai neu fwy ffurfiol, e.e. Alla i ddefnyddio hwn, plis? Hoffwn i ddefnyddio hwn, os yn bosib.	UB3.1 Gwneud cais mwy cymhleth, e.e. Mae'n flin gen i eich poeni chi, ond fyddai modd i ni adael yn gynnar heddiw?	Gwneud cais mwy cymhleth, e.e. Byddwn i'n ddiolchgar tasech chi'n gwneud ymdrech i gyrraedd yn gynharach y tro nesa'. Gwneud cais anffurfiol iawn, e.e. Rho hwn i gadw i fi, wnei di?

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Datgan ffeithiau, gwybodaeth bersonol, adroddiadau a storïau a gofyn am wybodaeth	MB4.1 Cyfleu ffeithiau syml iawn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, e.e. Dw i'n byw yma. Dyw hi ddim yn gweithio. Mae'r trê'n wedi gadael.	SB4.1 Cyfleu ffeithiau syml, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, e.e. Mae Elen yn gweithio yn y ganolfan ers dwy flynedd. Dw i'n mynd ar fy ngwyliau i Ffrainc am y trydydd tro.	CB4.1 Cyfleu ffeithiau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, e.e. Bydd angen i chi ymrestru cyn i'r cwrs ddechrau.	UB4.1 Cyfleu ffeithiau o fewn unrhyw gyd-destun oni bai ei fod yn arbenigol iawn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, e.e. Ga'th Konrad ei ddal yn dwyn o'r capel. Dw i'n ei chael hi'n anodd deall y rhaglen heb isdeitlau.	Cyfleu ffeithiau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, e.e. Yn fuan ar ôl ymddeol, cafodd Hywel driniaeth fawr ar ei galon. Byth oddi ar hynny, mae e'n neidio bynji bob cyfle gaiff e.
	MB4.2 Gofyn am fanylion personol syml iawn neu wybodaeth syml iawn am berson arall, e.e. Dych chi'n siarad Cymraeg? Esgusodwch fi. Pwy yw Mr Williams, os gwelwch chi'n dda?	SB4.2 Rhoi adroddiadau byr, e.e. Gorffennodd Idwal ei waith yn gynnar, wedyn ffoniodd e adre.	CB4.2 Rhoi adroddiadau ac adrodd storïau yn y gorffennol, e.e. Pan oedd fy nhad yn y coleg, cwrddodd e â Mam. Ar ôl iddyn nhw raddio, aethon nhw i weithio yng Nghaerdydd am flwyddyn. Wedyn...	UB4.2 Rhoi adroddiadau ac adrodd storïau yn y gorffennol o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Ar y cyfan, does dim diddordeb gen i mewn garddio, ond y llynedd... Ar ôl paratoi'n drwyadl ar gyfer yr arholiad, erbyn i fi gyrraedd, deallais i nad oeddwn i yn y lle iawn.	Rhoi adroddiadau ac adrodd storïau yn y gorffennol, e.e. Pan fydd aelod newydd o staff yn ymuno â'r sefydliad, bydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu o fewn chwe mis. Gadewais i Angharad a'r lleill yn y dafarn, a bant â fi i ôl Kate o'r orsaf. Wrth i fi gerdded, dyma fi'n cael tecst oddi wrthi i ddweud byddai hi awr yn hwyr. Do'n i ddim yn bles, galla i ddweud wrthoch chi.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
		SB4.3 Gofyn am wybodaeth bersonol neu ffeithiol syml e.e. O'ch chi'n byw yng Nghymru pan o'ch chi'n blentyn? Gaethoch chi wers neithiwr?	CB4.3 Gofyn am wybodaeth bersonol neu ffeithiol o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Ers pryd dych chi'n byw yma? Ers pum mlynedd, ie? Beth yw'r druta: y brechdanau ham neu gaws?	UB4.3 Gofyn am wybodaeth o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Allech chi ddangos i fi sut mae defnyddio'r peiriant llungopïo, plîs?	Gofyn am wybodaeth o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. Fyddai modd trwsio'r peiriant erbyn i'r pennaeth gyrraedd yn ôl, wyt ti'n credu?
Egluro	MB5.1 Gofyn am eglurhad syml iawn, e.e. Eto, plîs. Mae'n ddrwg gen i, dw i ddim yn dallt.	SB5.1 Gofyn am eglurhad ac esboniad syml, e.e. Wnewch chi esbonio?	CB5.1 Defnyddio ffyrdd uniongyrchol ac anuniongyrchol o ofyn am eglurhad yn ôl yr angen, e.e. gofyn i siaradwr ailadrodd cyfarwyddiadau Fasech chi'n gallu dweud hynny eto?	UB5.1 Gofyn am eglurhad o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Fyddai modd i chi ailadrodd y cyfarwyddiadau os gwelwch yn dda?	Gofyn am eglurhad o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. Ydy hi'n bosib i chi egluro unwaith eto sut mae'r fynegai'n gweithio?

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Esbonio, cyfarwyddo a chyfeirio neu ofyn am esboniad, cyfarwyddyd neu gyfeiriad	MB6.1 Esbonio yn gryno iawn, e.e. Dyma Siân. Mae hi'n gweithio gyda fi Dim diolch. Dw i ddim yn ysmegu.	SB6.1 Esbonio yn syml, e.e. Mae'n flin gyda fi, ond dw i ddim yn gallu dod heno. Rhaid i fi weithio.	CB6.1 Esbonio, e.e. Mae'n flin gyda fi am fethu dod y tro diwetha. Roedd annwyd arna i.	UB6.1 Esbonio a chyfarwyddo o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Os rhowch chi wybod i'r clerc o flaen llaw, gallan nhw drefnu lle parcio i chi. Gwell i chi fynd ar y trêen os oes angen i chi fod yno erbyn naw.	Esbonio a chyfarwyddo o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. Beth am gael golwg ar y fersiwn wreiddiol? Dw i'n credu bod esiamplau pellach yn honno y gallech chi gyfeirio atyn nhw.
	MB6.2 Cyfarwyddo a chyfeirio yn syml iawn, e.e. Ewch allan. Mae'r orsaf ar bwys Tesco.	SB6.2 Cyfarwyddo a chyfeirio yn syml, e.e. Byddwch chi'n gweld hen ysgol gyferbyn â chi.	CB6.2 Cyfarwyddo a chyfeirio, e.e. I ddechrau, mae angen berwi'r llaeth a'r winwns. Nesa, pliciwch y tatws a'u torri'n chwarteri.	UB6.2 Gofyn am esboniad, cyfarwyddyd neu esboniad o fewn unrhyw gyd-destun oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Dych chi'n gallu esbonio sut bydd y cwrs yn cael ei drefnu?	Gofyn am esboniad, cyfarwyddyd neu esboniad o fewn unrhyw gyd-destun gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. Oes modd i chi roi tystiolaeth sy'n cyfiawnhau.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	<p>MB6.3 Gofyn am gyfeiriadau neu leoliad yn syml iawn, e.e. Esgusodwch fi. Ble mae'r bar, os gwelwch chi'n dda?</p>	<p>SB6.3 Gofyn am gyfeiriadau neu leoliad yn syml, e.e. Esgusodwch fi. Dych chi'n gallu dweud wrtho i ble mae'r bar, plis?</p>	<p>CB6.3 Gofyn am gyfeiriadau, lleoliad neu esboniad, e.e. Dych chi'n gallu dweud wrtho i ble dw i'n gallu ffeindio Lisa Williams, os gwelwch chi'n dda?</p>		
<p>Mynegi hoffterau ac anhoffterau, diddordeb a diffyg diddordeb, dyheadau a gobeithion, safbwyntiau a barnau, a gofyn am hoffterau ac anhoffterau, diddordeb a diffyg diddordeb, dyheadau a gobeithion, a safbwyntiau a barnau</p>	<p>MB7.1 Cyfleu hoffterau ac anhoffterau, dyheadau, teimladau a safbwyntiau syml iawn, e.e. Dw i'n hoffi Burger King. Dw i eisiau mynd i Fangor. Mae Emmerdale yn rhaglen dda.</p>	<p>SB7.1 Cyfleu hoffterau ac anhoffterau, teimladau, dyheadau a gobeithion, barnau a safbwyntiau yn syml, e.e. Gobeithio bydd amser gyda ni. Dw i'n meddwl hynny hefyd. Mae diddordeb gyda fi mewn chwaraeon.</p>	<p>CB7.1 Cyfleu hoffterau ac anhoffterau, teimladau, dyheadau a gobeithion, barnau a safbwyntiau o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Mae'n gas gyda fi reis. Hoffwn i ddod efo chi. Dw i'n credu eich bod chi'n hollol iawn. Mae'n well gyda fi bêl-droed na rygbi.</p>	<p>UB7.1 Cyfleu hoffterau ac anhoffterau, teimladau, dyheadau a gobeithion, barnau a safbwyntiau o fewn unrhyw gyd-destun oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Roedd Olwen ar ben ei digon. Dw i wedi laru ar yr holl beth. Sai'n meddwl.</p>	<p>Cyfleu hoffterau ac anhoffterau, teimladau, dyheadau a gobeithion, barnau a safbwyntiau, gan eu cefnogi gyda thystiolaeth, e.e. O ystyried hynny, gallech chi ddadlau mai rhoi'r gorau i'r cynllun fyddai galla'.</p>

SIARAD

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	<p>MB7.2 Gofyn am farn ar bwnc pob dydd neu hoffter yn syml iawn, e.e. Dych chi'n hoffi'r rhaglen? Wyt ti'n hoffi pasta? Dych chi eisiau mynd i'r sinema?</p>	<p>SB7.2 Gofyn am farn ar bwnc, hoffter neu ddyhead yn syml, e.e. Beth dych chi'n feddwl o'r rhaglen? Dych chi eisiau mynd i'r sinema? Ydy'r plant eisiau mynd i'r sinema?</p>	<p>CB7.2 Gofyn am farn ar bwnc cyffredin, neu am hoffter neu ddyhead o fewn cyd-destun pob dydd e.e. Dych chi'n meddwl bod y cwrs yn ddiddorol? Dych chi eisiau i fi fynd i'r siop?</p>	<p>UB7.2 Gofyn am farn ar faterion cyfoes nad ydynt yn arbenigol iawn, neu am hoffter neu ddyhead mewn cyd-destun ffurfiol e.e. Dych chi'n credu dylai pobl ifainc 16 oed gael pleidleisio? Ydych chi am fynd i'r gynhadledd? Ydych chi am i fi e-bostio'r agenda at bawb?</p>	<p>Gofyn am farn ar bob math o bynciau, gan gynnwys rhai arbenigol, a gofyn am ddyhead o fewn cyd-destun ffurfiol, e.e. Dych chi o'r farn y bydd cyfraddau llog yn codi? Ydych chi am i fi gyflwyno'r siaradwyr gwadd neu ydych chi am wneud hyn eich hunan?</p>
Awgrymu, cynghori, perswadio	<p>MB8.1 Awgrymu yn syml iawn, e.e. Beth am fynd am baned?</p>	<p>SB8.1 Awgrymu a chynghori yn syml, e.e. Dylet ti dorri dy wallt.</p>	<p>CB8.1 Awgrymu a chynghori o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Be' am dorri am goffi rŵan? Dylech chi frysio.</p>	<p>UB8.1 Cynghori, perswadio, rhybuddio o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn e.e. Ga i gynnig eich bod chi'n gohirio? Faswn i ddim yn gwneud hynny, taswn i yn dy le di.</p>	<p>Perswadio, rhybuddio, ceryddu o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn e.e. Wir i chi, byddwn i'n dueddol o ddal yn ôl am ychydig. Dw i'n anfodlon iawn hefo'r ffordd dach chi wedi mynd ati, rhaid deud.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Trefnu a chynllunio	MB9.1 Trafod trefniadau a chynlluniau syml iawn, e.e. Dw i'n mynd i... Beth am...?	SB9.1 Trafod trefniadau a chynlluniau syml, e.e. Hoffwn i... Ble awn ni?	CB9.1 Trafod trefniadau a chynllunio o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Dw i'n meddwl dylen ni...	UB9.1 Cynllunio gweithredu o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Gwelais i fod bwyty Eidalaidd newydd wedi agor. Wyt ti eisiau i fi gadw bwrdd?	Cynllunio gweithredu o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. Ydych chi am i fi newid trefn agenda'r cyfarfod ymlaen llaw?
Cytuno neu anghytuno â siaradwyr eraill	MB10.1 Cyfleu cytundeb neu anghytundeb cyffredinol iawn, e.e. Dw i'n cytuno/Dw i ddim yn cytuno.	SB10.1 Cyfleu safbwynt i siaradwyr eraill yn syml, e.e. Dw i'n cytuno â chi/ Dw i'n anghytuno â chi.	CB10.1 Uniaethu â siaradwyr eraill gan holi eu teimladau a'u barnau, a pharchu'r broses cymryd tro. e.e. Dw i'n ofni 'mod i ddim yn cytuno â chi.	UB10.1 Tynnu eraill i mewn i drafodaeth, gan ddefnyddio ymadroddion wrth dorri ar draws, e.e. Falle lichech chi gynnig rhyw sylw fan hyn, Judith? Mae'n flin gen i dorri ar eich traws chi, ond na! Mae hynny'n gwbl afresymol.	Helpu i symud trafodaeth yn ei blaen, cynnig sylwadau perthnasol gan ddefnyddio ymadroddion priodol i dorri ar draws neu newid testun, defnyddio strategaethau i galonogi, a chynnig neu dderbyn barn feirniadol mewn ffordd adeiladol.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Rhoi caniatâd a gofyn am ganiatâd	MB11.1 Gofyn am ganiatâd syml iawn, e.e. Ga i fynd?	SB11.1 Rhoi caniatad syml, e.e. Cei di fynd. SB11.2 Gofyn am ganiatâd syml, e.e. Ga i adael yn gynnar?	CB11.1 Rhoi caniatâd o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Mae hi'n iawn i ti gyrraedd yn hwyr fory achos mae rheswm da gyda ti. CB11.2 Gofyn am ganiatâd o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Ydy hi'n iawn i fi adael yn gynnar heddiw?	UB11.1 Rhoi caniatâd am bob math o faterion, ond heb fod yn arbenigol iawn, e.e. Mae croeso i chi weithio gartref fory os byddwch chi eisiau canolbwyntio ar yr adroddiad. UB11.2 Gofyn am ganiatâd am bob math o faterion, ond heb fod yn arbenigol iawn, e.e. Fasai hi'n iawn i fi beidio ag ateb yr e-byst i gyd heddiw?	Rhoi caniatâd am faterion cymhleth, e.e. Yn dilyn trafodaeth ddwys, rydym am adael i chi gael gwyliau di-dâl. Gofyn am ganiatâd am faterion cymhleth, e.e. Fyddai modd i ni newid yr agenda a thrafod Unrhyw Fater Arall ar y diwedd?
Rhoi cadarnhad a gofyn am gadarnhad	MB12.1 Rhoi cadarnhad syml iawn, e.e. Rwyt ti'n iawn.	SB12.1 Rhoi cadarnhad syml, e.e. Bydd popeth yn iawn.	CB12.1 Rhoi cadarnhad o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Ro't ti'n iawn i ofyn y cwestiwn.	UB12.1 Rhoi cadarnhad o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. 'Dyn ni wedi clywed bydd y ddau dîm yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.	Rhoi cadarnhad cymhleth o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. Bydd modd i chi gwblhau eich traethawd estynedig y tymor nesaf.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	MB12.2 Gofyn am gadarnhad syml iawn, e.e. Wyt ti'n iawn?	SB12.2 Gofyn am gadarnhad syml, e.e. Fydd hi'n gallu dod?	CB12.2 Gofyn am gadarnhad, e.e. Welaist ti fe?	UB12.2 Gofyn am gadarnhad o fewn unrhyw gyd-destun, heb ei fod yn arbenigol iawn e.e. Collon nhw'r gêm yn ystod amser ychwanegol, on'd do?	Gofyn am gadarnhad o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. A oes modd i chi gadarnhau bod fy nhystiolaeth yn hollol gywir os gwelwch yn dda?
Mynegi bwriad a gofyn am fwriad	MB13.1 Mynegi bwriad syml iawn, e.e. Dw i'n mynd.	SB13.1 Mynegi bwriad syml, e.e. Dw i'n mynd i'r cyngerdd nos yfory.	CB13.1 Mynegi bwriad o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Dw i'n bwriadu chwilio am swydd newydd.	UB13.1 Mynegi bwriad, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. Mae'r cwmni'n mynd i symud i ardal arall i arbed costau.	Mynegi bwriad, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd ffurfiol, e.e. Yn groes i ewylllys y gweithwyr, mae'r cwmni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r ailstrwythuro.
	MB13.2 Gofyn am fwriad syml iawn, e.e. Wyt ti'n mynd	SB13.2 Gofyn am fwriad syml, e.e. Wyt ti'n mynd i'r gêm ar ôl y gwaith yfory?	CB13.2 Gofyn am fwriad o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Beth mae John yn mynd i wneud nesa?	UB13.2 Gofyn am fwriad, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. Beth mae'r cwmni'n mynd i'w wneud yn sgil y toriadau diweddar?	Gofyn am fwriad, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd ffurfiol, e.e. Beth fyddai'n cwmni'n ei wneud petai'r grant yn cael ei ddiddymu?

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Gwadu	MB14.1 Gwadu'n syml iawn, e.e. Dydy e ddim yn wir. Wnes i ddim.	SB14.1 Gwadu'n syml, e.e. Do'n i ddim yna.	CB14.1 Gwadu o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Sut dych chi'n disgwyl i mi ateb? Dw i ddim yn gwybod dim byd.	UB14.1 Gwadu gweithred o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Dim fi wnaeth e.	Gwadu gweithred, gan gynnwys o fewn sefyllfaoedd proffesiynol, e.e. Nid fi sy'n gyfrifol am y trafferthion polisi yma.
Gallu datgan bod rhywun neu rywbeth wedi'i gofio neu wedi'i anghofio	MB15.1 Datgan yn syml iawn bod rhywun yn cofio neu ddim yn cofio, e.e. Dw i ddim yn gallu cofio.	SB15.1 Datgan yn syml bod rhywun yn cofio neu ddim yn cofio person neu weithred, e.e. Dw i ddim yn cofio dweud hynny.	CB15.1 Datgan bod rhywun yn cofio neu ddim yn cofio gweithred gan ymhelaethu, e.e. Dw i ddim yn cofio ble gadawais i fy mag.	UB15.1 Datgan bod rhywun yn cofio neu ddim yn cofio rhywbeth yn digwydd o fewn unrhyw gyd-destun oni bai ei fod yn arbenigol iawn.	Datgan bod rhywun yn cofio neu ddim yn cofio rhywbeth, gan gynnwys cyffredinol, e.e. Fydda i byth yn cofio penblwyddi ffrindiau.
Mynegi tebygolrwydd	MB16.1 Mynegi tebygolrwydd yn syml iawn, e.e. Mae'n bosib.	SB16.1 Mynegi tebygolrwydd yn syml, e.e. Yn bendant.	CB16.1 Mynegi tebygolrwydd o fewn brawddeg lawn, e.e. Byddan nhw siŵr o fod yn colli.	UB16.1 Mynegi tebygolrwydd o fewn brawddegau mwy cymhleth, e.e. Dyw hi ddim yn debygol iawn y byddan nhw'n ennill.	Mynegi tebygolrwydd er mwyn creu ansicrwydd, e.e. Dyw hi ddim yn bosib bod plentyn pump oed wedi cynhyrchu gwaith o'r safon yna!

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Mynegi hapusrwydd neu anhapusrwydd	MB17.1 Mynegi hapusrwydd neu anhapusrwydd yn syml iawn, e.e. Dw i'n hapus. Dw i ddim yn hapus.	SB17.1 Mynegi graddau o hapusrwydd neu anhapusrwydd yn syml, e.e. Dw i'n hapus iawn gyda'r newyddion. Dw i ddim yn hapus o gwbl.	CB17.1 Mynegi graddau o hapusrwydd neu anhapusrwydd, e.e. Dw i mor hapus am fy swydd newydd.	UB17.1 Mynegi hapusrwydd neu anhapusrwydd o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Ro'n i mor falch o weld eich bod yn aros gyda'r cwmni wedi'r cyfan.	Mynegi hapusrwydd neu anhapusrwydd, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd ffurfiol iawn, e.e. Mae'n ddrwg iawn gen i orfod datgan fy siom o glywed y newyddion y bydd y ffatri'n cau.
Mynegi boddhad neu anfodddhad	MB18.1 Mynegi boddhad neu anfodddhad yn syml iawn, e.e. Mae'n iawn. Dim problem. Mae gen i broblem. Mae'r bwyd yn oer.	SB18.1 Mynegi boddhad neu anfodddhad yn syml, e.e. Mae popeth yn iawn nawr. Dw i ddim yn hapus gyda'r gwaith.	CB18.1 Mynegi boddhad neu anfodddhad o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Mae hynny'n ddigon da erbyn hyn. Dyw'r gwaith ddim yn ddigon da.	UB18.1 Mynegi boddhad neu anfodddhad o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Gwnaiff e'r tro. Dw i'n hoffi bwyd wedi'i goginio'n ffres fel hyn.	Mynegi boddhad neu anfodddhad mewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. Dyw safon y bwyd ddim yn dderbyniol ar gyfer gwesty pum seren. Dyna'n union beth ro'n i'n gobeithio ei gael gennych chi.
Mynegi gobaith a siom	MB19.1 Mynegi gobaith yn syml iawn, e.e. Gobeithio.	SB19.1 Mynegi gobaith neu siom yn syml, e.e. Gobeithio ddim. Dw i ddim yn hapus.	CB19.1 Mynegi gobaith neu siom o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Gobeithio bydd y tywydd yn aros yn braf am yr wythnos nesaf.	UB19.1 Mynegi gobaith neu siom o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Mae'n drueni nad ydych chi'n gallu dod i'r parti.	Mynegi gobaith neu siom mewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. Mae'n drueni mawr na fydd modd i chi ymuno â ni o'r cychwyn cyntaf.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Mynegi diolch ac ymateb i ddiolch	MB20.1 Mynegi diolch ac ymateb i ddiolch yn syml iawn, e.e. Diolch. Diolch yn fawr. Dim diolch.	SB20.1 Mynegi diolch ac ymateb i ddiolch yn syml, e.e. Diolch yn fawr iawn. Mae'n bleser. Dim o gwbl.	CB20.1 Mynegi diolch ac ymateb i ddiolch o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Diolch o galon i chi am y cyfle.	UB20.1 Mynegi diolch ac ymateb i ddiolch o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Dw i'n ddiolchgar iawn i chi am y cyfle.	Mynegi diolch ac ymateb i ddiolch o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai ffurfiol iawn, e.e. Dw i'n hynod o ddiolchgar i chi am yr holl gymorth dw i wedi'i dderbyn dros y blynyddoedd.
Cynnig a derbyn ymddiheuriad	MB21.1 Cynnig a derbyn ymddiheuriad yn syml iawn, e.e. Mae'n ddrwg gen i. Dim problem.	SB21.1 Cynnig a derbyn ymddiheuriad yn syml, e.e. Mae'n ddrwg iawn gyda fi. Mae popeth yn iawn erbyn hyn. Does dim ots.	CB21.1 Cynnig a derbyn ymddiheuriad o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Dw i eisiau ymddiheuro am y problemau. Anghofiwch amdano fe - camgymeriad oedd e.	UB21.1 Cynnig a derbyn ymddiheuriad o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Wnewch chi faddau i fi os gwelwch yn dda? Ro'n i ar fai.	Cynnig a derbyn ymddiheuriad o fewn gyd-destun, gan gynnwys rhai ffurfiol iawn, e.e. Hoffwn i ymddiheuro'n ddrwg am unrhyw anghyfleuster achoswyd.
Mynegi cymeradwyaeth neu	MB22.1 Mynegi cymeradwyaeth yn syml iawn, e.e. Da iawn. Ardderchog.	SB22.1 Mynegi cymeradwyaeth neu.	CB22.1 Mynegi cymeradwyaeth neu.	UB22.1 Mynegi cymeradwyaeth neu.	Mynegi cymeradwyaeth neu.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Mynegi cydymdeimlad	MB23.1 Mynegi cydymdeimlad yn syml iawn, e.e. Mae'n flin gyda fi.	SB23.1 Mynegi cydymdeimlad yn syml, e.e. Mae'n flin gyda fi glywed eich newyddion.	CB23.1 Mynegi cydymdeimlad o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Mae'n flin iawn gyda fi os ydw i wedi eich brifo chi. Do'n i ddim yn bwriadu brifo neb.	UB23.1 Mynegi cydymdeimlad o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Mae'n ddrwg iawn gen i glywed am eich profedigaeth. Hoffwn i chi wybod bod pawb yn y swyddfa'n meddwl amdanoch ar yr adeg anodd hon.	Mynegi cydymdeimlad o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai anodd iawn, e.e. Roedd yn wirioneddol ddrwg gennym glywed y newyddion ofnadwy am y ddamwain a fu nos Sadwrn.
Gwneud awgrymiadau ac ymateb i awgrym	MB24.1 Gwneud awgrym ac ymateb i awgrym yn syml iawn, e.e. Beth am gerdded? Syniad da. Iawn	SB24.1 Gwneud awgrym ac ymateb i awgrym yn syml, e.e. Beth am gerdded adre heno? Pam lai?	CB24.1 Gwneud awgrym ac ymateb i awgrym o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Gallen ni fynd am dro. Gadwech i ni fynd.	UB24.1 Gwneud awgrym ac ymateb i awgrym o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Pam na wnawn ni ofyn iddyn nhw ddod gyda ni?	Gwneud awgrym ac ymateb i awgrym o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol iawn neu ffurfiol iawn, e.e. Mae awgrym wedi dod i law y dylen ni ailagor y drafodaeth.
Cynghori		SB25.1 Cynghori'n syml, e.e. Dylech chi fynd at yr heddlu.	CB25.1 Cynghori o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Taswn i yn eich esgidiau chi, baswn i'n dweud wrth yr heddlu.	UB25.1 Cynghori o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Pam nad ydych chi'n rhoi'r gorau i'w helpu fe gyda phopeth?	Cynghori o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. Yn y lle cyntaf, byddai'n ddoeth i chi gael cyngor cyfreithiol cyn mynd â'r mater ymhellach.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Rhybuddio	MB26.1 Rhybuddio'n syml iawn, e.e. Paid!	SB26.1 Rhybuddio'n syml, e.e. Byddwch yn ofalus gyda'r gyllell!	CB26.1 Rhybuddio o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Peidiwch â disgwyl i bawb fod mor amyneddgar.	UB26.1 Rhybuddio o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Cymerwch ofal nad ydych chi'n mynd i fwy o drafferth.	Rhybuddio o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai cymhleth, e.e. Byddwch ar eich gwyliadwriaeth – mae'r sefyllfa hon yn un beryglus iawn a allai newid er gwaeth.
Gofyn am gymorth a chynnig cymorth	MB27.1 Cynnig a gofyn am gymorth yn syml iawn, e.e. Dych chi'n gallu helpu os gwelwch yn dda? Ga i helpu? Dw i'n medru helpu.	SB27.1 Cynnig a gofyn am gymorth yn syml, e.e. Ga i'ch helpu chi? Wnewch chi fy helpu i?	CB27.1 Cynnig a gofyn am gymorth o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Gadewch i fi eich helpu chi gyda'r bagiau 'na.	UB27.1 Cynnig a gofyn am gymorth o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Cofiwch ofyn am gymorth unrhyw bryd – dw i bob amser ar gael.	Cynnig a gofyn am gymorth o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. Byddwn yn gwerthfawrogi gair o gyngor os nad yw'n ormod o drafferth i chi.
Gwahodd a derbyn/gwrthod gwahoddiad	MB28.1 Gwahodd a derbyn neu wrthod gwahoddiad yn syml iawn, e.e. Dych chi eisiau dod i'r dre gyda fi? Diolch. Os gwelwch yn dda? Dim diolch.	SB28.1 Gwahodd a derbyn neu wrthod gwahoddiad yn syml, e.e. Hoffech chi ddod gyda fi? Basai'n hyfryd. Dyw hi ddim yn bosib ar hyn o bryd.	CB28.1 Gwahodd a derbyn neu wrthod gwahoddiad o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Baswn i wrth fy modd tasech chi'n gallu dod gyda ni. Yn anffodus, bydda i'n brysur ar y dyddiad yna. Oes dyddiad arall?	UB28.1 Gwahodd a derbyn neu wrthod gwahoddiad o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Basai'r pwyllgor yn hoffi eich gwahodd i ymuno â nhw.	Gwahodd a derbyn neu wrthod gwahoddiad mewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. A fydddech chi cystal â'm hysbysu a fyddwch yn gallu derbyn y gwahoddiad ai peidio?

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Hunan-gywiro	MB29.1 Hunan-gywiro'n syml iawn, e.e. Na. Mae'n ddrwg gen i.	SB29.1 Hunan-gywiro'n syml, e.e. Rhaid i fi ddechrau eto!	CB29.1 Hunan-gywiro o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Gadewch i mi ddechrau o'r dechrau eto!	UB29.1 Hunan-gywiro o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Nid dyna beth ro'n i'n ceisio ei ddweud.	Hunan-gywiro o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai ffurfiol iawn, e.e. Nid dyna'r union ystyr ro'n i'n ceisio ei gyfleu.
Crynhoi/cloi	MB30.1 Crynhoi neu gloi anerchiad yn syml iawn, e.e. I orffen,...	SB30.1 Crynhoi neu gloi anerchiad mewn modd syml, e.e. I orffen,... Diolch am wrando.	CB30.1 Crynhoi neu gloi anerchiad, e.e. I gloi, hoffwn i ddweud... Diolch yn fawr am wrando mor ofalus.	UB30.1 Crynhoi neu gloi anerchiad, e.e. A bod yn gryno, hoffwn i...	Crynhoi neu gloi anerchiad, e.e. Cyn tewi, hoffwn i...
Newid y pwnc	MB31.1 Newid y pwnc yn syml iawn, e.e. Nesa,	SB31.1 Newid y pwnc yn syml, e.e. Hoffwn i ddweud/ofyn rhywbeth arall.	CB31.1 Newid y pwnc a thynnu rhywun arall i mewn i sgwrs, e.e. I newid y pwnc am funud. Beth yw'ch barn chi?	UB31.1 Newid y pwnc trwy ofyn cwestiwn, e.e. Beth yw'ch safbwynt chi ar y mater yma?	Gofyn am ganiatâd i newid pwnc o fewn sefyllfa ffurfiol, e.e. Os gwnewch chi adael i fi wyro o'r pwnc dan sylw am ychydig...

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Dangos dealltwriaeth/diffyg dealltwriaeth	MB32.1 Dangos dealltwriaeth neu ddiffyg dealltwriaeth yn syml iawn, e.e. Dw i'n gweld. Dw i'n deall Mae'n flin gyda fi, dw i ddim yn deall. Eto os gwelwch yn dda. Beth yw X?	SB32.1 Dangos dealltwriaeth neu ddiffyg dealltwriaeth yn syml, e.e. Yn wir. Wnewch chi ddweud hynny eto - yn arafach?	CB32.1 Dangos dealltwriaeth neu ddiffyg dealltwriaeth, e.e. Yn union. Wnewch chi ailadrodd y cwestiwn os gwelwch yn dda? Eto os gwelwch yn dda - a ddim mor gyflym y tro hwn.	UB32.1 Dangos dealltwriaeth neu ddiffyg dealltwriaeth o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Oes modd i chi ailadrodd yr ail gwestiwn eto os gwelwch yn dda er mwyn i mi ddeall yn llwyr?	Dangos dealltwriaeth neu ddiffyg dealltwriaeth o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol, e.e. Hoffwn i glywed yr ail gymal eto er mwyn prosesu'r wybodaeth yn ofalus.
Torri ar draws	MB33.1 Torri ar draws yn syml iawn, e.e. Esgusodwch fi.	SB33.1 Torri ar draws yn syml, e.e. Ga i ddweud rhywbeth yma?	CB33.1 Torri ar draws o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Hoffwn i ychwanegu rhywbeth.	UB33.1 Torri ar draws o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai ffurfiol, e.e. Hoffwn i ymhelaethu ar y pwynt hwn.	Torri ar draws o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai ffurfiol iawn, e.e. Mae'n flin iawn gyda fi ond dw i'n gorfod torri ar eich traws achos bod eich ffeithiau chi'n hollol anghywir.
Disgrifio a gofyn am ddisgrifiadau	MB34.1 Rhoi disgrifiadau syml iawn, e.e. Maen nhw'n dda. Mae Hilda'n hyfryd.	SB34.1 Rhoi disgrifiadau syml, e.e. Roedd y dyn yn dal ac yn denau. Mae gan y plant ddillad smart.	CB34.1 Disgrifio pobl, lleoedd a phethau o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Roedd hi yn ei saithdegau.	UB34.1 Disgrifio pobl, lleoedd a phethau o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol, e.e. O gymharu â llawer o bobl eraill, mae'r Cymry'n hoffi gofyn llawer o gwestiynau personol.	Disgrifio pobl, lleoedd a phethau o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol iawn, e.e. Mae Sbaen yn wlad hamddenol dros ben, ac yn gynhesach o lawer na Phrydain wrth gwrs.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	MB34.2 Gofyn am ddisgrifiadau syml iawn, e.e. Ydyn nhw'n dda?	SB34.2 Gofyn am ddisgrifiadau syml o bobl, lleoedd a phethau, e.e. Sut un yw Rhys?	CB34.2 Gofyn am ddisgrifiadau o bobl, lleoedd a phethau o fewn cyd-destun pob dydd, e.e. Ydyn nhw'n debyg i'w rhieni?	UB34.2 Gofyn am ddisgrifiadau o bobl, lleoedd a phethau o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Pa fath o bobl, yn eich barn chi, sy'n cyrraedd y brig?	Gofyn am ddisgrifiadau o bobl, lleoedd a phethau o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol iawn, e.e. Oes modd i chi roi disgrifiad manwl o'r amodau byw yng ngwledydd Affrica?
Strwythuro a datblygu syniadau a gwybodaeth		SB35.1 Dechrau strwythuro gwybodaeth trwy ddefnyddio cysyllteiriau i adeiladu brawddegau, e.e. Aethon nhw i'r ysgol yn y bore, wedyn aethon nhw i'r ysgol i gwrdd â'r rhieni.	CB35.1 Strwythuro gwybodaeth trwy gyplysu brawddegau i gyflwyno gwybodaeth estynedig o fewn cyd-destun bywyd pob dydd, e.e. Blynnyddoedd yn ôl, aeth fy ffrind i gyfarfod yng Nghaerdydd. Pan oedd hi yna, wnaeth hi gyfarfod rhywun o America...	UB35.1 Strwythuro syniadau trwy gyplysu brawddegau i gyflwyno gwybodaeth estynedig o fewn unrhyw gyd-destun, oni bai ei fod yn arbenigol iawn, e.e. Dw i am fynd dros rai o'r newidiadau yn gyntaf. Wedyn bydd cyfle i ni drafod y newidiadau yma.	Strwythuro syniadau trwy gyplysu brawddegau i gyflwyno gwybodaeth estynedig o fewn unrhyw gyd-destun, gan gynnwys rhai arbenigol neu ffurfiol iawn, e.e. Cyn i ni fwrw ymlaen â gweddill y tasgau, awn ni dros yr un gyntaf gyda'n gilydd i sicrhau bod pawb ar y trywydd iawn.

C - TROSOLYGN CYSTRAWENNAU GRAMADEGOL ALLWEDDOL

Mae'r trosolygon hyn yn dangos cynnydd yn y prif gystrawennau gramadegol ar hyd yr ystod lefelau. Gellir eu defnyddio ar y cyd gyda'r trosolygon sgiliau a ffwythiannau.

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, byddant yn

- ▲ dysgu defnyddio'r iaith wrth adeiladu ar eu cystrawennau gramadegol, gan symud o nifer gyfyngedig o batrymau ac amserau'r ferf (A1) i amrediad eang o batrymau gan gynnwys gallu defnyddio brawddegau cymhleth (B2).
- ▲ gallu manteisio ar gronfa gynyddol o ran:
 - geirfa;
 - arddulliau a chyweiriau (ffurfiol ac anffurfiol);
 - gramadeg a chystrawen;
 - nodweddion ynganiadol.

Nodiadau ar gyfer defnyddio'r trosolygon

Mae'r trosolygon hyn yn nodi'r hyn y disgwylir i'r dysgwyr fod yn gallu ei gyflawni o safbwynt twf yn eu cystrawennau gramadegol. Mae ymchwil ar gaffael iaith yn dangos nad yw 'cwblhau'r lefel' o anghenraid yn golygu cywirdeb 100%. Yn ogystal, nid yw'r hyn a nodir ar gyfer lefel benodol yn cyfyngu'r hyn y gellir ei ddysgu na'i addysgu ar y lefel honno. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn dymuno dysgu iaith a nodir ar lefelau uwch ar gyfer rhai o'r patrymau a nodir, neu y bydd arnynt angen gwneud hynny; bydd hyn yn amrywio yn ôl y dysgwr a'r sefyllfa ddysgu.

C - CYSTRAWENNAU GRAMADEGOL ALLWEDDOL

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Brawddegau	<p>Creu brawddegau syml: MC1.1 Trefn geiriau mewn datganiadau syml yn y presennol, e.e. berf + gwrthrych Mae hi'n hoffi siocled.</p> <p>berf + adferf Dw i'n mynd fory.</p> <p>enw + ansoddair Mae e'n dda.</p> <p>enw + cymal arddodiadol Maen nhw ar y bwrdd. Mae amser gyda ni. Does dim arian gan Harry.</p>	<p>Creu brawddegau syml a chyfansawdd: SC1.1 Trefn geiriau mewn brawddegau cyfansawdd, e.e. berf + a / ond + berf + gwrthrych Dw i'n hoffi darllen ond mae Gareth yn hoffi nofio.</p> <p>berf + berfenw Dw i'n ceisio deall. Mae e eisiau dod. Wyt ti'n gallu helpu? Mae'r plant yn gwrthod bwyta. Dw i'n gorfod dweud hynny.</p> <p>bod + 'na + enw Mae pobl yn y caffii.. Mae 'na bobl yn y caffii (TM)</p>	<p>Creu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth: CC1.1 Amrywiadau yn nhrefn geiriau, e.e. Yng Nghymru, mae llawer o fynyddoedd / Mae llawer o fynyddoedd yng Nghymru.</p>	<p>Creu brawddegau syml a chyfansawdd, a rhai cymhleth ac iddynt fwy nag un cymal isradd. UC1.1 Trefn geiriau mewn brawddegau ac iddynt fwy nag un cymal isradd, e.e. Mewn gwledydd lle maen nhw'n cael siesta, bydd pobl yn aml yn bwyta yn oriau mân y bore.</p>	<p>Brawddegau syml a chyfansawdd, a rhai cymhleth ac iddynt amrediad eang o gymalau isradd: Trefn geiriau mewn brawddegau cymhleth, gan gynnwys brawddegau pwysleisiol, e.e. Nid dod yma i drafod y tywydd wnaethon ni. Dyna beth oedd cyfarfod diflas. Er mwyn sicrhau na fyddent yn ormodol ar staff y swyddfa y byddent yn gweithio ynddi, trefnodd Mrs Jones fod yr ymwelwyr o dramor yn darparu eu cyfieithydd eu hunain.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	MC2.1 Ffurfiâu negyddol, e.e. Dw i ddim yn gwybod.	SC1.2 Ffurfiâu negyddol e.e. Does neb yn gwybod.	CC1.2 Trefn geiriau mewn brawddegau cymhleth, e.e. Dyma blanhigion sy'n tyfu mewn gwledydd poeth. CC1.3 Ffurfiâu negyddol e.e. Dyw pawb ddim yn.	UC1.2 Ffurfiâu negyddol e.e. Dim / Nid pawb sy'n gwybod.	
Brawddegau gyda'r ferfenw 'bod'	MC2.1 Defnyddio'r ferf 'bod' i greu brawddegau mewn amserau gwahanol. mae + enw (+ cymal arddodiadol) Mae Siân yn yr ysgol. mae + enw + wedi bod (+ cymal arddodiadol) Mae Sian wedi bod yn yr ysgol.	SC2.1 Defnyddio'r ferf 'bod' i greu brawddegau mewn amserau gwahanol. mae + enw + yn mynd i fod (+ cymal arddodiadol) Mae Mared yn mynd i fod yn y swyddfa.	CC2.1 Defnyddio'r ferf 'bod' i greu brawddegau mewn amserau gwahanol. roedd + enw + yn mynd i fod (+ cymal arddodiadol) Roedd y bwyd yn mynd i fod drws nesa. newydd + berfenw (TM) Dw i newydd fwyta.	UC2.1 Defnyddio'r ferf 'bod' i greu brawddegau mewn amserau gwahanol. bu(odd) + enw (+cymal arddodiadol) Buodd Dafydd yn y dre. ar fin + berfenw Dw i ar fin bwyta.	

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	<p>roedd + enw (+ cymal arddodiadol) Roedd y plant yn y cyngerdd.</p>	<p>roedd + yn arfer + berfenw Roedd Clare yn arfer ysmygu.</p> <p>bydd + enw (+ cymal arddodiadol) Bydd y car yn y maes parcio.</p> <p>byddai + enw (+ cymal arddodiadol) Byddai Jac yn y tîm.</p> <p>dylai + enw + fod (+ cymal arddodiadol) Dylai Manon fod yn y gwely.</p>	<p>roedd + enw + wedi bod (+ cymal arddodiadol) Roedd Ioan wedi bod yn Rwsia.</p> <p>gallai + enw + fod (+cymal arddodiadol) Gallai Siân fod yn y côr.</p> <p>byddai + enw + wedi bod (+ cymal arddodiadol) Byddai'r tiwtor wedi bod yn y Sadwrn Siarad.</p> <p>gallai + enw + fod wedi bod (+ cymal adferfol) Gallai Dafydd fod wedi bod yn y ras.</p> <p>dylai + enw + fod wedi bod (+ cymal arddodiadol) Dylai Ann fod wedi bod yn y gwaith.</p>		

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Cysyllteiriau	<p>MC3.1 Enwau wedi'u cysylltu ag a / ac, e.e. Mam a Dad.</p>	<p>SC3.1 Cymalau wedi'u huno gydag a / ond / neu.</p>	<p>CC3.1 Brawddegau cymhleth ag un cymal isradd: - Amser, e.e. Pan mae hi'n dywyll, maen nhw'n mynd adre. - Rheswm, e.e. Dwi ddim yn bwyta ham achos dw i ddim yn hoffi cig. - Canlyniad, e.e. Dwi wedi colli'r bws, felly dw i'n cerdded i'r ysgol. - Amod, e.e. Os bydd hi'n braf, af i i'r traeth.</p> <p>CC3.2 Cymalau perthynol sy'n diffinio, e.e. Dyna fy nghymydog sy'n gweithio yn y banc.</p> <p>CC3.3 Brawddegau cymhleth sy'n cynnwys person + berf + ail berson + yn + berfenw,</p>	<p>UC3.1 Amrywiaeth o gysyllteiriau i gyfleu cyferbyniaeth, rheswm, pwrpas, deilliant, canlyniad, amod, cydnabyddiaeth.</p> <p>UC3.2 Ffuriau amodol, gan ddefnyddio os ac oni bai yn y gorffennol, e.e. Doedd e ddim yn fodlon dod i'r wers oni bai 'mod i'n dod.</p> <p>UC3.3 Ffuriau amodol, gan gynnwys byddai wedi / gallai fod wedi / dylai fod wedi / hoffai fod wedi e.e. Gallen nhw fod wedi pasio'r arholiad tasech chi wedi dweud y dyddiad a'r lleoliad cywir wrthyn nhw.</p> <p>UC3.4 Cymalau perthynol nad ydynt yn diffinio, e.e. Mae'r tiwtor, sydd yn byw yng Ngheredigion, yn dod yn wreiddiol o'r Alban.</p>	<p>Amrywiaeth eang o ddyfeisiau cysylltu, gan gynnwys ar yr amod fod, cyhyd â bod, o gofio bod.</p> <p>Cymalau perthynol sy'n defnyddio a / y(r), e.e. Bydd yr heddwes a arestiodd y dyn yn ymddangos ar y teledu heno. Mae'r dyn yr arestiwyd ei fab gan yr heddlu wedi ymddangos yn y papurau heddiw. Dacw'r pentref y cefais fy magu ynddo.</p> <p>Cymalau arddodiadol mwy cymhleth, e.e. Tybed a fyddai'r plant yn well eu hymddygiad o fod wedi cael eu disgyblu'n llymach pan oeddent yn iau?</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
			<p>e.e. Dw i'n gallu clywed y plant yn canu Gwelon ni'r heddlu'n cyrraedd.</p> <p>CC3.4 Brawddegau cymhleth a dan reolaeth yr arddodiad i, e.e. Cyn i fi godi, dw i'n gwrando ar y radio Syrthiodd Rhys wrth iddo fe ddod i lawr y grisiau Roedd rhaid i Lisa ofyn pwy oedd wedi torri'r ffenestr.</p> <p>CC3.5 Brawddegau cymhleth sydd yn cynnwys arddodiad, e.e. Helpu rhywun i wneud rhywbeth Dweud wrth rywun am wneud rhywbeth Rhwystro rhywun rhag gwneud rhywbeth.</p>	<p>UC3.5 Cymalau perthynol cadarnhaol a negyddol sy'n defnyddio 'a' a 'na', e.e. Mae'r frechdan a brynaist ti i fi yn ddiflas. Dyma'r rhai na ddeallais i.</p> <p>UC3.6 Brawddegau cymhleth sy'n cynnwys cymalau arddodiadol, e.e. Gyrodd i'r dre gan anghofio ei waled Perswadiodd y plant eu rhieni drwy swian yn gyson. Rhedodd Mari lawr y stryd dan grio nerth ei phen.</p> <p>UC3.7 Cymal sy'n gweithredu fel goddrych neu wrthrych, e.e. Dw i'n gwybod ble wyt ti'n byw Y cwbl mae hi'n wneud yw conan. Yr hyn a ddymunwn yw gwrandawriad teg.</p>	<p>Cystrawennau cymharol sy'n defnyddio po, e.e. Po gyflymaf y cerddwch chi, cynharaf y cyrhaeddwch chi'r dafarn, a mwyaf o amser yfed fydd gennych chi.</p> <p>Cystrawennau perthynol sy'n defnyddio nas, e.e. Nid oes bwyd ar gael gan nas archebwyd.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Cwestiynau ac atebion	<p>MC4.1 Cwestiynau ac atebion - ffurfiau cadarnhaol, negyddol a gofynnol presennol bod pob person, gan gynnwys yr atebion canlynol: ie / nage ydw / nac ydw ydy / nac ydy ydyn / nac ydyn oes / nac oes.</p> <p>MC4.2 Ffurfiâu amherffaith bod, e.e. o'n / nac o'n oedd / nac oedd.</p> <p>MC4.3 Cwestiynau syml sy'n dechrau â Beth, Pwy, Faint [cymal berfol], Ble, Pryd, Pam, Sut [cymal berfol], Sawl.</p>	<p>SC4.1 Cwestiynau ac atebion - cwestiynau yr holl amseroedd berfol sydd wedi codi ar lefel Mynediad a Sylfaen (pob person), e.e. oedd / nac oedd bydd / na fydd.</p> <p>SC4.2 Cystrawennau amodol syml, e.e. i fynegi cynnig neu ddymuniad: Hoffech chi fisged?</p> <p>SC4.3 Cwestiynau mwy cymhleth, e.e. O ble Gyda phwy Faint o Pa Sut [enw].</p> <p>SC4.4 Cwestiynau cymharol, e.e. P'un yw'r hirafl?</p>	<p>CC4.1 Cwestiynau ac atebion, gwnaf / na wnafl.</p> <p>CC4.2 Cystrawennau amodol, e.e. Pwy hoffai gael un o'r rhain? Beth fasai dy fam yn ddweud?</p> <p>CC4.3 Cwestiynau pa mor...?</p> <p>CC4.4 Cwestiynau pwysleisiol mwy cymhleth, e.e. Beth sydd orau gyda chi?</p> <p>CC4.5 Cwestiynau meddiannol, e.e. Car pwy yw hwn?</p> <p>CC4.6 Cwestiynau pegynol, e.e. Wyt ti eisiau te, 'ta coffi / neu goffi?</p> <p>CC4.7 Cwestiynau ymhlyg syml, e.e. Wyt ti'n gwybod pwy yw'r pennaeth?</p>	<p>UC4.1 Cwestiynau sy'n defnyddio pob person ac amser yn yr amodol a'r dyfodol cryno, e.e. Allen nhw fod yn diwtoriaid? Hoffech chi i mi roi gwybod i bawb? Allai fe fod wedi mynd i sgïo?</p> <p>UC4.2 Amrediad o gwestiynau ymhlyg neu anuniongyrchol sy'n defnyddio'r geiryn gofynnol a, e.e. Ydych chi'n gwybod a fydd amser gennym ni? Holodd Mr Jones a fyddai modd talu gyda cherdyn.</p>	<p>Cwestiynau ymhlyg mwy cymhleth, e.e. Ysgrifennaf i'ch holi a allech esbonio'r drefn. Beth fasent yn ei wneud pe bai daeargryn?</p> <p>Cwestiynau negyddol, e.e. On'd yw hi'n braf? On' fase hynny wedi bod yn well?</p> <p>Defnyddio ddim i gyfleu anghytundeb â datganiad negyddol, e.e. Fwytais i ddim byd. Do ddim! Dw i byth yn camfihafio. Wyt ddim!</p> <p>Y geiryn gofynnol a i eglurhau neu bwysleisio cwestiwn, e.e. Y broblem yw, a fydd digon o amser gyda ni?</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Y gorffennol cryno	MC5.1 Gorffennol cryno mynd, cael a gwneud e.e. Es i allan. Wnest ti'r gwaith?	SC5.1 Gorffennol cryno berfau, e.e. Edrychais i ar y teledu.	CC5.1 Gorffennol cryno berfau, e.e. Cyrhaeddais i'n hwyr, arhosodd e am bythefnos	CC5.1 Ymwybyddiaeth o'r symleiddio a geir o ran treiglo mewn cyweiriau llai ffurfiol ar lafar, e.e. Ges i goffi, brynodd Lisa fwyd, ga'th Rhys ddim byd	Affeithiad yn ffurfiau'r person cyntaf unigol mewn cyweiriau mwy ffurfiol, e.e. Cenais i, cefais i
Y dyfodol	MC6.1 Ceisiadau ac ymatebion sy'n defnyddio dyfodol cryno cael, e.e. Ga i bensil, plis? cei / na chei cewch / na chewch MC6.2 Dyfodol bod i gyfleu cynllun neu amserlen bendant, e.e. Bydda i'n gweithio	SC6.1 Dyfodol cryno'r berfau mynd, cael a gwneud i gyfleu cais, rhagwelediad, bwriad difyfyf ac ati, e.e. Gwna i frechdan gaws. Wnei di'r gwely, plis? Af i ar ôl cinio	CC6.1 Dyfodol cryno berfau afreolaidd a rheolaidd i gyfleu cais, rhagwelediad, bwriad difyfyf ac ati, e.e. Gwela i ti fory Taliff e am y tocynnau Ddwedan nhw ddim byd		

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Amser, dyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn	<p>MC7.1 Amser: Faint o'r gloch yw hi? Am faint o'r gloch wyt ti'n codi?</p> <p>MC7.2 Dyddiau'r wythnos: Beth wyt ti'n wneud ddydd Llun?</p> <p>MC7.3 Misoedd y flwyddyn: Mae fy mhen-blwydd i ym mis Mai</p>	<p>SC7.1 Blynyddoedd: ymadroddion syml, e.e. un flwyddyn, dwy flynedd, deg mlynedd.</p>	<p>CC7.1 Amser: Ers faint o'r gloch wyt ti'n aros? Tan faint o'r gloch gweithiaist ti?</p> <p>CC7.2 Dyddiau'r wythnos: Ar ba ddiwrnodau wyt ti'n gweithio?</p> <p>CC7.3 Blynyddoedd: amrediad cynyddol o ymadroddion traddodiadol, e.e. ugain mlynedd, hanner can mlynedd, tri chwarter canrif.</p>	<p>UC7.1 Amser: Erbyn faint o'r gloch bydd hi wedi gorffen?</p> <p>UC7.2 Blynyddoedd: ymadroddion traddodiadol, e.e. un mlynedd ar ddeg.</p>	
Tagiau		<p>SC8.1 Tagiau sy'n cyd-fynd ag amseroedd berfau a ddysgir e.e. Mae hi'n oer, on'd yw hi / on'd ydy?</p>	<p>CC8.1 Tagiau sy'n cyd-fynd ag amseroedd berfau a ddysgir e.e. Maen nhw wedi gwneud eu gwaith cartref, on'd y'n nhw / on'd ydyn nhw?</p>	<p>UC8.1 Tagiau sy'n cyd-fynd ag amseroedd berfau a ddysgir e.e. Baset ti wedi dweud, on' faset (ti)?</p>	<p>Amrediad eang o dagiau i gyd-fynd â gwahanol amseroedd a moddau, e.e. Fasai hynny ddim wedi bod yn sioc, na fasai (fe)?</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Pwyslais	MC9.1 Cystrawennau pwysleisiol syml: Siôn dw i Meddyg yw Beti.	SC9.1 Cystrawennau pwysleisiol syml gan gynnwys cwestiynau a'r negyddol: Nyrs yw Rhian? Ie / Nage Nid / Dim nyrs yw hi.	CC9.1 Cystrawennau pwysleisiol mewn amrediad o amseroedd, e.e. Mrs Evans fydd yn ennill? CC9.2 Brawddegau pwysleisiol negyddol, e.e. Dim ond un sy gyda fi.	UC9.1 Cystrawennau pwysleisiol mwy cymhleth, e.e. Geraint fydd yr un gorau i ddysgu'r dosbarth hwnnw. UC9.2 Pwyslais mewn llefaru anuniongyrchol, e.e. Maen nhw'n dweud mai meddygon ydyn. nhw UC9.3 Y geiryn fe i bwysleisio berf gadarnhaol, e.e. Doedd dim cyfarfod ddoe, ond fe fydd un heddiw. UC9.4 Y geiryn negyddol ni mewn cyweiriau mwy ffurfiol ysgrifenedig, e.e. Ni chafodd gyfle i wrthwynebu.	
Gorchmynion	MC10.1 Gorchmynion cyffredin cadarnhaol a negyddol, e.e. Eisteddwch! Paid rhedeg!	SC10.1 Gorchmynion cyffredin ac afreolaidd, e.e. Trowch, rhowch, mwynhewch.		UC10.1 Gorchmynion anuniongyrchol a chystrawennau tebyg, e.e. Dwedodd hi wrtha i am fynd i'r gwely.	Gorchmynion anuniongyrchol a thagiâu, e.e. Bydd yn dawel, wnei di!

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
				Gofynnodd e i fi weithio.	Gorchmynion trydydd person, e.e. Peidied e â bod yn hwyr, a gaiff e ddod mewn.
Y goddefol/ yr amhersonol		SC11.1 Person cyntaf cadarnhaol ac ail berson gofynnol y gystrawen oddefol – Ces i fy ngeni, Ble cest ti dy eni? Ble gaethoch chi eich geni?	CC11.1 Cystrawennau goddefol e.e. Cawson ni ein stopio Cafodd y llyfr ei ysgrifennu Cafodd y gân ei chanu gan Bethan George. CC11.2 Cystrawennau amhersonol -wyd, e.e. Arestiwyd y dynion.	UC11.1 Ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth ddewis rhwng y goddefol a'r mynegol / amhersonol, e.e. I was told to stop by the officer → → Dywedodd y swyddog wrthof am aros They were asked to perform → Gofynnwyd iddynt berfformio.	Gorchmynion sy'n pwysleisio, e.e. Aros di ble wyt ti! Caewch chithau eich pennau!

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
				UC11.3 Cystrawennau amhersonol -ir, -id e.e. Gwelir achosion o'r fath yn gyson, Cosbid y plant am ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth.	
Cymal enwol		SC12.1 Cymal enwol syml i fynegi barn, e.e. Dw i'n meddwl bod y bwyd yn dda.	CC12.1 Cymal enwol syml i fynegi llefaru anuniongyrchol ac ati, e.e. Dwedodd hi ei bod hi'n mwynhau Efallai bod nhw ddim yn dod Gobeithio bydd hi'n braf fory Wyt ti'n meddwl dylen ni fynd mewn?	UC12.1 Llefaru anuniongyrchol ac ati gyda gwahanol amseroedd berfol, e.e. Darllenais fod Eleri wedi ymddeol Cyhoeddwyd y byddai cyfarfod yn y pentref.	Amrediad o gystrawennau llefaru anuniongyrchol, e.e. Clywais nad oedd rhaid mynychu'r digwyddiadau hyn. Nododd y byddai'n cwyno pe bai rhaid Dywedodd Carlo iddo lwyddo.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
				<p>UC12.2 Cymal enwol negyddol gyda na, e.e. Wrth gwrs na ddaw neb arall. Dwedodd Lynne nad oedd (dim) ots.</p> <p>UC12.3 Cydberthynas cywair / ffurfioldeb a ffurfiau'r cymal enwol, e.e. Gobeithio ei fod yn / ei fod e'n / bo fe'n.</p>	
Cymalau perthynol			<p>CC13.1 Cystrawen berthynol sy'n defnyddio sy(dd), e.e. Gareth yw'r dysgwr sy'n byw yn Abertawe. Wyt ti'n nabod Gareth oedd yn gweithio drws nesa? Hi yw'r ferch fydd yn mynd.</p>	<p>UC13.1 Cystrawen berthynol sy'n cynnwys y ac a, e.e. Dyma'r dyn a ddaeth ddoe Siân yw'r ferch y priodais i ei chwaer.</p>	

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Arddodiaid	MC14.1 Cyfleoliadau berf + arddodiad cyffredin, e.e. siarad â, dod o, mynd i, mynd am dro, mynd at, edrych ar, gwrando ar, cwrdd â, mynd â.	SC14.1 Cyfleoliadau berf + arddodiad, e.e. gofyn am, dweud wrth, meddwl o.	CC14.1 Cyfleoliadau berf + arddodiad, e.e. dibynnu ar, cofio at. CC14.2 Arddodiaid cyfansawdd, e.e. ar ei bwys e ar fy ôl i wrth ei hochr hi o'u cwmpas nhw.	UC14.1 Cyfleoliadau berf + arddodiad, e.e. ymddiried yn, rhedeg ar, credu mewn, amharu ar, torri ar draws, bwrw yn erbyn. UC14.2 Ymwybyddiaeth o'r ffyrdd mae berfau arddodiadol Saesneg (phrasal verbs) yn trosi i'r Gymraeg, e.e. to look up→ edrych i fyny to run away→ rhedeg i ffwrdd to move out→ symud allan OND to give in → ildio to cool down → oeri to run out→ darfod to get over→ goresgyn, gwella.	
Y Fannod	MC15.1 Y fannod y, yr, 'r a TM lle bo'i angen.	SC15.1 Y fannod mewn cystrawennau mesur, e.e. pum punt y kilo, tri deg milltir yr awr, ugain punt y pen, cant y cant.	CC15.1 Y gystrawen mo / ddim o, e.e. welais i mo'r ci.		

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	<p>MC15.2 Defnydd y fannod mewn ymadroddion sydd yn wahanol i'r rhai cyfatebol Saesneg, e.e. mynd i'r ysgol, i'r gwely, i'r dre, i'r ysbyty.</p> <p>MC15.3 Y fannod mewn cystrawennau meddiannol, e.e. Pobol y Cwm, mam y plentyn.</p>				
Rhagenwau meddiannol/ cystrawennau meddiannol	<p>MC16.1 Rhagenwau meddiannol - fy, dy, ei, ein, eich, eu.</p> <p>MC16.2 Cystrawennau meddiannol di-fannod, e.e. Mam Siân, dillad plant, canol Caerdydd.</p> <p>MC16.3 Cystrawennau meddiannol 'dwbl', e.e. enw dy fam (di), car fy mrawd (i).</p>	<p>SC16.1 Cystrawennau meddiannol + berfenw, e.e. braf dy weld di, dw i'n ei charu hi.</p>	<p>CC16.1 Cystrawennau meddiannol fy un i, fy rhai i.</p>	<p>UC16.1 Cystrawennau meddiannol: ffrind i mi.</p>	<p>Cystrawennau arddodiadol: Mae e'n dad iti Mae hi'n ben-blwydd ar Tom.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Ansoddeiriau	<p>MC17.1 Enw + ansoddair + treigladd meddal lle bo'i angen, e.e. Bachgen bach Merch fach.</p> <p>MC17.2 Ansoddeiriau cyffredin ar ôl yn a TM lle bo'i angen, e.e. Mae hi'n wyntog.</p> <p>MC17.3 Defnyddio'r goleddfydd iawn, e.e. diddorol iawn.</p>	<p>SA17.1 Ansoddair + berfenw Mae'n hawdd deall Roedd hi'n braf dod adre Bydd hi'n amhosibl cysgu yno.</p> <p>SC17.2 Ansoddair + arddodiad Mae'n ddrwg gyda ni fod yn hwyr Mae hi'n gas gen i gaws Roedd hi'n dda gyda fi glywed Ro'n i'n hoff o'r Beatles Mae'n well gyda fi win coch.</p> <p>SC17.3 Trefn ansoddeiriau, e.e. car mawr coch, hen fenyw fach garedeg.</p> <p>SC17.4 Ansoddeiriau cyn enw, e.e. hen, hoff, cas, holl, unig (TM).</p>	<p>CC17.1 Ansoddair + arddodiad Basai'n well gyda fi beidio Mae'n anodd gen i gredu hynny.</p> <p>CC17.2 Cystrawennau cymharol, e.e. mor ... â, edrych fel.</p> <p>CC17.3 Amrediad o oleddfyddion, e.e. yn ddigon da, mor bell.</p> <p>CC17.4 Cyfuno arddodiad a'r meddiannol, e.e. â'i, i'w, o'u.</p>	<p>UC17.1 Ymwybyddiaeth o ffurfiau benywaidd a llyuosog cyffredin ansoddeiriau, yn enwedig mewn ymadroddion sefydledig, e.e. tîm y Cochion, bord gron, stori fer, danadl poethion, arth wen, lili wen fach, y pethau bychain.</p> <p>UC17.2 Amrediad eang o oleddfyddion, e.e. yn arbennig o dda.</p>	<p>Ymwybyddiaeth gynyddol o ffurfiau benywaidd a llyuosog ansoddeiriau, e.e. sanau gwynion, dadl gref, ongl lem.</p> <p>Ymwybyddiaeth o ystyr terfyniadau cyffredin, e.e. -(l)lyd i gyfleu nodwedd anymunol (dychrynlyd, drewllyd, pwdlyd, swnllyd) -(i) og i gyfleu meddiant neu berthyn (ariannog, blodeuog, corniog, gludiog) -lon i gyfleu bod yn 'llawn' rhyw nodwedd (cariadlon, ffrwythlon, ffyddlon, heddychlon).</p> <p>Isystyron a chryfder ansoddeiriau, e.e. creulon, cas, atgas, angharedig, anymunol, pechadurus, ffiaidd.</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
			<p>SC17.5 Ffurfiâu cymharol ac eithaf, gan gynnwys rhai rheolaidd a rhai afreolaidd cyffredin, e.e. mwy, mwyaf, llai, lleiaf, gwell, gorau, gwaeth, gwaethaf, talach, talaf.</p> <p>SC17.6 Defnyddio goleddfyddion, e.e. eithaf da, rhy ddrud.</p>	<p>UC17.3 Ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn ffurfiâu unigol / lluosog enwau sy'n ansoddeiriol, e.e. siop bapurau, arhosfa fysiau, ffatri geir, pastai afalau.</p> <p>UC17.4 Cystrawennau cymharol mwy ffurfiol a llenyddol, e.e. cyn - ed â, fel petai.</p> <p>UC17.5 Ffurfiâu llai cyffredin cyfartal, cymharol ac eithaf ansoddeiriau, e.e. Roedd hon yn dasg anos na'r lleill. Hwnnw oedd y llwybr hwyaf o dipyn. Mae hynny gyfystyr â llofruddio. Mae'r ddau'n gyfoedion.</p> <p>UC17.6 Cyfleoliadau ansoddeiriau ac arddodiaid, e.e. blin am, sicr o, hapus gyda.</p>	

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Ansoddeiriau dangosol	MC18.1 Yr ansoddeiriau dangosol cyffredin 'ma a 'na, e.e. Pwy yw'r plant 'ma?		CC18.1 Ansoddeiriau dangosol mwy ffurfiol, e.e. y ferch hon, y dyn hwn, y plant hyn.	UC18.1 Amrediad o ansoddeiriau dangosol mwy ffurfiol, e.e. y ferch honno, y dyn hwinnw, y plant hynny, y tai acw.	
Arddodiad	MC19.1 Arddodiaid syml i gyfleu lleoliad a chyfeiriad, e.e. ar y bwrdd, o dan y gadair, yn fan hyn, i Gaerdydd, o Fangor. MC19.2 Mynd â / dod â. MC19.3 Y gwahaniaeth rhwng yn a mewn, mynd i / at.	SC19.1 Arddodiaid i gyfleu amrywiaeth o ystyron, e.e. yn erbyn, rhwng, gyferbyn â, tan. SC19.2 Cyfleoliadau berfau ac arddodiaid, e.e. dweud wrth.	CC19.1 Amrediad ehangach o gystrawennau arddodiadol, e.e. wrth fy modd. CC19.2 Cyfleoliadau berfau ac arddodiaid, e.e. cofio at. CC19.3 Cyfuno arddodiad a'r meddiannol, e.e. â'i, i'w, o'u.	UC19.1 Amrediad o ansoddeiriau dangosol mwy ffurfiol, e.e. y ferch honno, y dyn hwinnw, y plant hynny, y tai acw.	Cystrawennau sy'n dechrau gyda'r arddodiad o, e.e. o gofio, o fod wedi, o wneud.

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Brawddegau dan reolaeth yr arddodiad 'i'	MC20.1 Brawddegau syml dan reolaeth yr arddodiad i e.e. Rhaid i fi weithio heddiw.	SA20.1 Brawddegau dan reolaeth yr arddodiad i, e.e. Rhaid iddo fe weithio heddiw Rhaid i ti beidio (â) mynd Mae'n bryd i chi fynd i'r gwely.	CC20.1 Brawddegau mwy cymhleth dan reolaeth yr arddodiad i, e.e. Cyn i fi godi, dw i'n gwrando ar y radio. Syrthiodd Rhys wrth iddo fe ddod i lawr y grisiau. Bydda i wedi gorffen erbyn i ti gyrraedd. Ewch mlaen nes i chi gyrraedd y gylchfan Dw i eisiau i ti goginio. CC21.2 Cystrawennau eraill berf + yr arddodiad i, e.e. Helpon nhw ti i goginio? Gorfodon nhw fi i aros. Perswadiais i Bob i ymuno.		
Yr arddodiad 'ar'	MC21.1 Yr arddodiad ar/gan, pob person, i gyflew anhwyldeuau syml, e.e. Mae annwyd arna i/Mae gynno i annwyd.	SC21.1 Yn y De, yr arddodiad ar i gyflew amrywiaeth o gyflyrau, e.e. Does dim syched arnyn nhw.	CC21.1 Yr arddodiad ar i gyflew dyled, e.e. Mae arna i ddeg punt i ti.		

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Adferfau	<p>MC22.1 Adferfau syml i gyfleu lle, modd ac amser, e.e. yma, fan hyn, yn gyflym, yn hwyr, heddiw, nawr</p>	<p>SA22.1 Adferfau a chymalau adferfol syml, gan gynnwys: - trefn amser: wedyn, nesaf - lle ac amser: yn y dre, gyda'r nos - amledd: bob amser, weithiau, byth, ddwywaith - modd: ar frys, yn ddiflas</p> <p>SC22.2 Trefn geiriau mewn elfennau adferfol, e.e. Roedd Arthur bob amser yn golchi'r llestri yn syth ar ôl swper</p>	<p>CC22.1 Amrediad eang o elfennau adferfol, e.e. i gyfleu posibilrwydd a graddau o debygolrwydd, e.e. efallai, mae'n bosibl, yn sicr</p> <p>CC22.2 Ymadroddion mwy cymhleth i gyfleu amser, lle, amledd, modd, e.e. cyn gynted ag y bo modd</p>	<p>UC22.1 Amrediad o elfennau adferfol i gyfleu amser, modd, gradd, lle, amledd, tebygolrwydd</p>	<p>TM ar ôl elfen adferfol, e.e. Ceir yma ddigonedd o gyfleoedd Clywais droeon fod trafferthion</p>

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Treigladau	<p>MC23.1 Treigladd Meddal</p> <ul style="list-style-type: none"> • enw neu ansoddair ar ôl yn • enw benywaidd ar ôl un, y • ansoddair ar ôl enw benywaidd • enw ar ôl dau / dwy • ar ôl beth / pwy / faint, pa • negyddol neu ofynnol berf gryno • ar ôl yr arddodiaid i, o, am, ar • ar ôl dy, ei gwrywaidd. <p>MC23.2 Treigladd Trwynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar ôl fy, yn [lleoliad]. <p>MC23.3 Treigladd Llaes</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar ôl a, gyda • na chei / chewch • ar ôl ei benywaidd • negyddol berf gryno. 	<p>SA23.1 Treigladd Meddal</p> <ul style="list-style-type: none"> • berf ar ôl adferf • ar ôl pan • enw cyfarchol • enw ar ôl ansoddair • ar ôl arddodiaid e.e. wrth, at. <p>SC23.2 Treigladd Trwynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • blynedd. <p>SC23.3 Treigladd Llaes</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar ôl â, na, tua • ar ôl tri. 	<p>CC23.1 Treigladd Meddal</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwrthrych berf gryno • enw cyfarchol. <p>CC23.2 Treigladd Llaes</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar ôl chwe • ar ôl tra. 	<p>UC23.1 Treigladd Meddal</p> <ul style="list-style-type: none"> • berf ar ôl ni • ar ôl elfen adferfol (sangiad) mewn iaith fwy llenyddol / ffurfiol. <p>UC23.2 Treigladd Trwynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • wrth ffurfio negyddol rhai ansoddeiriau, e.e. anghytwys. <p>UC23.3 Treigladd Llaes</p> <ul style="list-style-type: none"> • berf ar ôl 'ni'. <p>UC23.4 Ymwybyddiaeth o'r ffyrdd mae'r treigladau'n ymddwyn mewn iaith lafar lai ffurfiol, e.e. TM berf gadarnhaol, hepgor TLI ar ôl a.</p>	

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
Cenedl enwau	<p>MC24.1 Ymwybyddiaeth o'r rheolau sy'n perthyn i genedl enwau difywyd, e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio rhifolion cywir (dau, tri, pedwar / dwy, tair, pedair) • TM enw benywaidd ar ôl un, y • TM ansoddair ar ôl enw benywaidd <p>MC24.2 Ymwybyddiaeth o'r anadliad caled o flaen llafariad gyda'r meddiannol, e.e. ei henw hi</p>	<p>SA24.1 Defnyddio cenedl cywir enwau mewn iaith fwy ffurfiol / ysgrifenedig, o ran rhagenwau, rhifolion, trefnolion a threigladau, e.e. Roedd hi'n ffilm ddiflas Prynnon ni ddwy gacen fawr Mae hi'n siop ddrud</p>	<p>CC24.1 Ymwybyddiaeth o'r gydberthynas rhwng cywair / ffurfioldeb a pharchu rheolau cenedl enwau, yn enwedig yn yr iaith lafar</p>		
Rhifolion a threfnolion	<p>MC25.1 Rhifo: 0, 1-100 (rhifau cyfoes), rhifau traddodiadol cyffredin, e.e. ugain, pum (munud) ar hugain, hanner cant</p>	<p>SC25.1 Rhifo: Ystod ehangach o rifau traddodiadol cyffredin, e.e. i gyfleu oedran: tair ar ddeg</p>	<p>CC25.1 Rhifo: Ystod ehangach o rifau traddodiadol, e.e. deg ar hugain, deugain</p> <p>CC25.1 Trefnolion: unfed ar ddeg hyd at unfed ar ddeg hugain</p>	<p>UC25.1 Rhifo: rhifau traddodiadol, ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r ffactorau sy'n llywio'r dewis rhwng rhif cyfoes a rhif traddodiadol</p>	

	MYNEDIAD	SYLFAEN	CANOLRADD	UWCH	HYFEDREDD
	<p>MC25.2 Trafod oedran plant hyd at ddeuddeg oed; trafod oedrannau hŷn gyda rhifau cyfoes yn unig.</p> <p>MC25.3 Mynegi prisiau syml, e.e. pum punt, naw punt naw deg naw.</p>	<p>SA25.2 Trefnolion: cyntaf hyd at y degfed.</p> <p>SC25.3 Mynegi prisiau.</p> <p>SC25.4 Mynegi pellter, e.e. Mae hi ddwy filltir i'r dre.</p>	<p>CC25.2 Trafod oedran person gan ddefnyddio rhifau traddodiadol (rhai llai cymhleth, e.e. trigain).</p> <p>CC25.3 Mynegi maint a phwysau, e.e. Mae'r bwrdd tua dau fetr o hyd. Maen nhw'n pwyso dau gilogram yr un.</p>		
Disgwrs	<p>MC26.1 Adferfau trefniadol syml, e.e. wedyn, nesaf.</p>	<p>SC26.1 Adferfau trefniadol, e.e. yn gyntaf, yn olaf.</p> <p>SC26.2 Marcyddion sy'n strwythuro disgwrs llafar, e.e. lawn Dyna ni Wel.</p>	<p>CC26.1 Dangosyddion sy'n cyfleu: - ychwanegiad, e.e. hefyd - trefn, e.e. yn y lle cyntaf - cyferbyniad, e.e. ar y llaw arall.</p>	<p>UC26.1 Amrediad o farcyddion disgwrs sy'n cyfleu: - ychwanegiad, e.e. yn ogystal - cyferbyniad, e.e. beth bynnag - trefn ac amser, e.e. dro arall, nes ymlaen.</p>	<p>Amrediad o ddangosyddion rhesymegol, e.e. i'r perwyl hwynnw, o ganlyniad, yn yr un modd, felly, yn ôl y disgwyl.</p> <p>Dangosyddion trefn, e.e. yn flaenorol, yn ddiweddarach.</p>

**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EP**

Ffôn: 0300 3234324

swyddfa@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru

[@learncymraeg](https://twitter.com/learncymraeg)